


Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# Asesiad Perfformiad Blynyddol 2024/2025

www.tancgc.gov.uk

This document is also available in English

# Fersiynau Amgen

## Cymraeg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch. Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn fformat neu iaith amgen, gan gynnwys ar ffurf sain, cysylltwch â ni ar: 0370 6060699 neu drwy e-bost: mail@mawwfire.gov.uk.

## Saesneg

This document is also available in accessible formats. If you would like this information in an alternative language or format, including audio, please contact us on 0370 6060699 or email: mail@mawwfire.gov.uk.

## Arabeg

هذه الوثيقة متوفرة ايضا بطرق تسهل قراءتها، لو تريد هذه المعلومه بلغة أخرى أو بشكل اخر، اضافة بطريقة مسموعة، المرجوا التواصل معنا عبر03706060699 او عبر البريد الالكتروني : mail@mawwfire.gov.uk

## Tsieineeg

该文档也备有无障碍格式版。如果您需要信息通过不同语言或格式提供，包括语音版本，请拨打 0370 60 60 699 或电邮到 mail@mawwfire.gov.uk 跟我们联系。

## Nepaleg

यो दस्तावेज अन्य सजिला फर्मेटहरूमा पनि उपलब्ध छ। यदि तपाईं यो जानकारी अडियोसमेत अन्य वैकल्पिक भाषा वा फर्मेटमा चाहनुहुन्छ भने कृपया हामीलाई फोन नं.: 0370 6060699 वा ईमेल: *mail@mawwfire.gov.uk* मा सम्पर्क गर्नुहोस्।

## Pwyleg

Istnieje również możliwość uzyskania niniejszego dokumentu w dostępnych formatach. Jeśli chce Pan/Pani otrzymać niniejsze informacje w innym języku lub formacie, w tym w wersji dźwiękowej, prosimy o skontaktowanie się z nami telefonicznie: 0370 6060699 lub drogą mailową: *mail@mawwfire.gov.uk*.

## Pwnjabeg

"ਇਹ ਦਸਤਾਵੇਜ਼ ਪਹੁੰਚਯੋਗ ਫਾਰਮੈਟਾਂ ਵਿਚ ਵੀ ਉਪਲਬਧ ਹੈ. ਜੇ ਤੁਸੀਂ ਇਹ ਜਾਣਕਾਰੀ ਕਿਸੇ ਵਿਕਲਪਿਕ ਭਾਸ਼ਾ ਜਾਂ ਫਾਰਮੈਟ ਵਿਚ ਚਾਹੁੰਦੇ ਹੋ, ਜਿਸ ਵਿਚ ਆਡੀਓ ਵੀ ਸ਼ਾਮਲ ਹੈ, ਕਿਰਪਾ ਕਰਕੇ ਸਾਡੇ ਨਾਲ ਸੰਪਰਕ ਕਰੋ: 0370 6060699 ਜਾਂ ਈਮੇਲ: mail@mawwfire.gov.uk."

## Wrdw

یہ دستاویز قابل رسائی شکلوں میں بھی دستیاب ہے۔ اگر آپ یہ معلومات آڈیو سمیت کسی متبادل زبان یا شکل میں چاہتے ہیں تو ، براہ کرم ہم سے رابطہ کریں:6060699 0370 یا ای میل : mail@mawwfire.gov.uk

**Cyflwyniad** ................................................................**Error! Bookmark not defined.**

**Ynglŷn â'n Hasesiad Perfformiad Blynyddol** ..........**Error! Bookmark not defined.**

**Ein Hymrwymiad i Wella** ..........................................**Error! Bookmark not defined.**

*Dangosyddion*.......................................................................................................... *5*

*Dangosyddion Perfformiad Cymru ar gyfer 2024/2025*.......... ***Error! Bookmark not defined.***

*Ein Perfformiad yn erbyn Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau Cymru Gyfan* ............................................................................................................................ *10*

**Ein Hamcanion Gwella a Llesiant**..................................................................... 16

*Amcan Gwella a Llesiant Un*……………………....……………………………………17

*Amcan Gwella a Llesiant Dau*……………………………………….………………21

*Amcan Gwella a Llesiant Tri* ......................................... ……………………………25

*Amcan Gwella a Llesiant Pedwar* .................................. ……………………………30

*Amcan Gwella a Llesiant Pump* ..................................... ……………………………33

*Amcan Gwella a Llesiant Chwech*............ ………………..…………………………38

*Amcan Gwella a Llesiant Saith*....................... ………………………………………...44

*Amcan Gwella a Llesiant Wyth*.......................…………………………………………49

**Darganfod mwy**. ........................................................................................... 53

**Atodiad 1:** Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Datganiad Cynnydd………………………………………………………………………..…..………54


**Atodiad 2:** Diweddariad cynnydd ar Asesiad Perfformiad Blynyddol 2024/2025 Galluogwyr……………………………………………………….………………...……...58

**Atodiad 3:** Straeon newydd da am waith a wnaed gan bob adran, rhwng 01 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025…………………………………………………………….......63

## Cyflwyniad

Rydyn ni’n falch o gyflwyno’r Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer **2024/2025**.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut mae'r Gwasanaeth wedi perfformio yn erbyn yr Amcanion Gwella a Llesiant o fewn ei Gynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) 2040.




Gweledigaeth y Gwasanaeth yw “darparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru", a bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy barhau i ymwneud â chymunedau, archwilio ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau a gweithio gyda phartneriaid i ddiogelu cymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.

Mae sicrhau bod yr Amcanion Gwella a Llesiant yn CRhRC 2040 yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac o fewn y gyllideb, gan barhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru ar yr un pryd, yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gwelliannau y mae'r Gwasanaeth wedi'u cyflawni ar gyfer staff a chymunedau dros y 12 mis diwethaf.

**Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.**
**Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.**
Please consider the environment before printing.
Don’t print if it’s not necessary.

**Ynglŷn â'n Hasesiad Perfformiad Blynyddol -** Erbyn 31 Hydref bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth gyhoeddi ei Asesiad Perfformiad Blynyddol, sy'n rhoi gwybod am y cynnydd yn erbyn yr Amcanion Gwella a Llesiant o'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Gwasanaeth yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cymunedau, staff, a rhanddeiliaid yn deall y ffordd y mae'n asesu ac yn adrodd ynghylch ei gyflawniadau. Mae'r Asesiad Perfformiad Blynyddol hwn yn amlinellu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr Amcanion Gwella a Llesiant yn ystod 2024/2025.

Mae'r Asesiad Perfformiad hefyd yn gyfle i'r Gwasanaeth nodi pa wersi sydd wedi'u dysgu a sut y byddant yn cael eu hymgorffori mewn prosesau cynllunio a gwella yn y dyfodol. Gallwch gael mynediad i'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC 2040) a Chynlluniau Strategol, Cynlluniau Corfforaethol, Cynlluniau Gwella Blynyddol ac Asesiadau Perfformiad Blynyddol blaenorol ar y wefan allanol drwy ymweld â www.tancgc.gov.uk/cym.

**Ymrwymiad i Wella -** Fel Gwasanaeth Cyhoeddus, rydyn ni'n gwybod ei bod yn ddyletswydd arnom i wella'n barhaus ar y ffordd yr ydym yn gweithio ac yn darparu ein gwasanaethau. Mae CRhRC hirdymor 2040 yn atgyfnerthu ymrwymiad y Gwasanaeth i wella'r gwasanaethau a ddarperir i gymunedau yn barhaus.


**Dangosyddion -** Mae'n ofynnol i ni adrodd yn flynyddol ar ein dangosyddion perfformiad statudol a sector. Mae'r tabl a'r graff canlynol yn rhoi trosolwg o'n perfformiad yn erbyn y dangosyddion statudol a sector hynny ar gyfer 2022/2023.


| | **Canolbarth a Gorllewin Cymru** | | **Gogledd Cymru** | | **De Cymru** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2023/24** | **2024/25 (p)** | **2023/24** | **2024/25 (p)** | **2023/24** | **2024/25 (p)** |
| **Nifer y Tanau yr Aethpwyd Atynt** | 2,583 | 2,951 | 1,657 | 1,804 | 5,460 | 5,408 |
| **Nifer y Galwadau Diangen yr Aethpwyd Atynt** | 5,932 | 5,083 | 2,901 | 3,264 | 9,465 | 9,430 |
| **Gwrthdrawiadau ar y Ffordd yr Aethpwyd Atynt** | 786 | 769 | 251 | 255 | 870 | 947 |
| **Galwadau Gwasanaeth Arbennig yr Aethpwyd Atynt** | 3,813 | 3,652 | 1,127 | 1,166 | 3,209 | 3,333 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau** | 35 | 46 | 44 | 49 | 40 | 55 |
| **Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol** | 26 | 41 | 40 | 45 | 34 | 51 |
| **Canran o danau mewn anheddau wedi'u cyfyngu i'r ystafell lle cychwynasant** | 82.71% | 85.46% | 90.88% | 87.01% | 84.43% | 85.92% |

| **Digwyddiad** | **2024/ 2025** | **2023/ 2024** | **2022/ 2023** | **2021/ 2022** | **2020/ 2021** | **2019/ 2020** | **2018/ 2019** | **2017/ 2018** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tanau** | 2951 | 2583 | 3023 | 3290 | 3087 | 3152 | 3734 | 3190 |
| **Gwrthdr awiadau ar y ffordd** | 769 | 786 | 771 | 693 | 528 | 948 | 870 | 983 |
| **Galwadau diangen** | 5083 | 5932 | 5161 | 4916 | 4798 | 4627 | 4895 | 4939 |
| **Galwadau cyd-ymatebwyr.** | 871 | 1044 | 1317 | 453 | 285 | 1969 | 1684 | 2546 |
| **Galwadau gwasanaeth arbennig ac eithrio galwadau cyd-ymatebwyr a galwadau gwrthdrawiadau ar y ffordd** | 2781 | 2809 | 2548 | 2521 | 2094 | 2515 | 2282 | 2122 |
| **Cyfanswm** | 12455 | 13154 | 12820 | 11873 | 10792 | #### | #### | #### |

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.




| | 2024/25 | 2023/24 | 2022/23 | 2021/22 | 2020/21 | 2019/20 | 2018/19 | 2017/18 | 2016/17 | 2015/16 | 2014/15 | 2013/14 | 2012/13 | 2011/12 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau | 2951 | 2583 | 3023 | 3290 | 3087 | 3152 | 3734 | 3190 | 2933 | 3392 | 3491 | 3916 | 3245 | 4522 |
| Gwrthdrawiadau ar y ffordd | 769 | 786 | 771 | 693 | 528 | 948 | 870 | 983 | 997 | 1079 | 1008 | 1133 | 1101 | 1004 |
| Galwadau diangen | 5083 | 5932 | 5161 | 4916 | 4798 | 4627 | 4895 | 4939 | 4489 | 4599 | 4464 | 4520 | 4521 | 4553 |
| Galwadau gwasanaeth arbennig ac eithrio galwadau cyd-ymatebwyr a galwadau gwrthdrawiadau ar y ffordd | 2781 | 2809 | 2548 | 2521 | 2094 | 2515 | 2282 | 2122 | 1926 | 1957 | 1650 | 2346 | 2182 | 1700 |
| Galwadau cyd-ymatebwyr. | 871 | 1044 | 1317 | 453 | 285 | 1969 | 1684 | 2546 | 3765 | 2532 | 2303 | 1914 | 1677 | 718 |

## Dangosyddion Perfformiad Cymru ar gyfer 2024/2025

Mae tri Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru yn adrodd yn flynyddol ar eu perfformiad ym meysydd penodol Lleihau Risg, Diogelwch Cymunedol, ac Iechyd y Gweithlu ac Iechyd Ariannol.

Isod ceir dadansoddiad o'n Dangosyddion Perfformiad Sector ar gyfer 2024/2025.

| Dangosydd Perfformiad | 2024/2025 Gwirioneddol | Cyfartaledd 2015/16 i 2019/20 | Cyfartaledd 2020/21 i 2024/25 | Newid Canran Cyfartalog 2015/16 i 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr holl danau bwriadol yr aethpwyd atynt fesul 10,000 o anheddau** | 1,514 | 1,552 | 1,483 | -4.4% |
| **Cyfanswm yr holl danau damweiniol yr aethpwyd atynt fesul 10,000 o anheddau** | 1,437 | 1,732 | 1,500 | -13.4% |
| **Cyfanswm yr holl danau mewn anheddau yr aethpwyd atynt fesul 10,000 o anheddau** | 446 | 562 | 458 | -18.5% |
| **Cyfanswm yr holl danau damweiniol mewn anheddau yr aethpwyd atynt fesul 10,000 o anheddau** | 412 | 529 | 420 | -20.6% |
| **Nifer y tanau bwriadol mewn anheddau fesul 10,000 o anheddau** | 34 | 36 | 37 | 2.8% |
| **Cyfanswm y tanau mewn adeiladau annomestig fesul 1,000 adeilad annomestig;** | 131 | 210 | 161 | -23.3% |
| **Cyfanswm y marwolaethau tân fesul 100,000 o'r boblogaeth** | 4 | 6 | 6 | 0.0% |

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Marwolaethau a achoswyd gan danau a ddechreuwyd yn ddamweiniol mewn anheddau fesul 100,000 o'r boblogaeth:** | 2 | 5 | 4 | -20.0% |
| **Marwolaethau a achoswyd gan danau a ddechreuwyd yn fwriadol mewn anheddau fesul 100,000 o'r boblogaeth:** | 0 | 0 | 0 | -0.0% |
| **Cyfanswm yr anafiadau (ac eithrio cymorth cyntaf ac archwiliadau rhag ofn) yn sgil tanau fesul 100,000 o'r boblogaeth** | 42 | 54 | 30 | -44.4% |
| **Anafiadau (ac eithrio cymorth cyntaf ac archwiliadau rhag ofn) yn sgil tanau a ddechreuwyd yn ddamweiniol mewn anheddau fesul 100,000 o'r boblogaeth:** | 33 | 40 | 22 | -45.0% |
| **Anafiadau (ac eithrio cymorth cyntaf ac archwiliadau rhag ofn) yn sgil tanau a ddechreuwyd yn fwriadol mewn anheddau fesul 100,000 o'r boblogaeth** | 3 | 4 | 2 | -50.0% |
| **Cyfanswm y galwadau diangen a achoswyd gan offer synhwyro tân awtomatig fesul**<br><br>**1,000 adeilad annomestig.** | 656 | 1,491 | 1,351 | -9.4% |
| **Tanau mewn anheddau yr aethpwyd atynt lle nad oedd larwm mwg wedi'i osod fel % o'r holl danau mewn anheddau yr aethpwyd atynt** | 47.5% | 41.0% | 47.2% | 15.1% |

# Ein Perfformiad yn erbyn y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan.

Mae lleihau nifer a difrifoldeb tanau mewn anheddau yn flaenoriaeth allweddol i dri Awdurdod Tân ac Achub Cymru. Adlewyrchir ein llwyddiant o ran cyflawni hyn yn glir yn y gostyngiad cyson yn nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd bob blwyddyn yng Nghymru.

Mae gan dri Awdurdod Tân ac Achub Cymru nod cyffredin o gynnal tuedd hirdymor tuag i lawr yn nifer y:

- tanau mewn anheddau;
- anafiadau/marwolaethau yn sgil tanau mewn anheddau; ac
- anafiadau difrifol i bersonél tân sy'n mynd i danau mewn anheddau.

Mae'r Siarter yn cynnwys saith ymrwymiad unigol a wneir gan y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru i aelodau'r cyhoedd sef:

1. Arwain y ffordd o ran lleihau nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.
2. Ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y cawn alwad 999 frys i fynd i dân mewn annedd.
3. Cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym a mynd â'r cyfarpar priodol i ymdrin â nhw.
4. Ymdrin â thanau'n effeithiol, yn effeithlon, ac yn broffesiynol.
5. Helpu i adfer normalrwydd i gymunedau yn dilyn tanau mewn anheddau.
6. Ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau a dwyn pobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.
7. Cynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.

---

***Gellir gweld y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan ar ein gwefan www.tancgc.gov.uk/cym***

---

Rydyn ni wedi adolygu ein perfformiad mewn perthynas â holl ymrwymiadau'r Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ac mae'r canlyniadau fel a ganlyn:-

## Ymrwymiad 1

***Byddwn yn cymryd yr awenau wrth ostwng nifer y tanau mewn anheddau sy'n digwydd a lleihau eu heffaith ar bobl.***

Rydyn ni wedi ymrwymo i arwain y ffordd o ran cynnal tuedd tuag i lawr yn nifer yr achosion o danau mewn anheddau a marwolaethau/anafiadau cysylltiedig yng Nghymru.

Yn 2024/2025 rhoesom gyngor ac anogaeth i bobl ynghylch sut y gallent atal tanau rhag dechrau yn eu cartref a sut y gallent gadw eu hunain yn ddiogel rhag tân. Roedd ein gwaith atal yn cynnwys darparu Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref i ddeiliaid tai, yn ogystal â rhoi sgwrs i blant a phobl ifanc mewn cyfnodau allweddol ar ddiogelwch tân.

---

***Yn ystod 2024/2025 aethom allan at 412 o danau damweiniol mewn anheddau, a arweiniodd at farwolaeth 2 o bobl ac anafiadau i 33 o bobl eraill (ac eithrio cymorth cyntaf ac archwiliadau rhag ofn). Hefyd, yn ystod 2024/2025 aethom allan at 34 o danau mewn anheddau a gychwynnnwyd yn fwriadol, a arweiniodd at anafu 3 pherson (ac eithrio cymorth cyntaf ar y safle ac archwiliadau rhag ofn).***

---

Mae'r duedd yn nifer y tanau mewn anheddau yn ardal y Gwasanaeth Tân ac Achub dros y pump i ddeng mlynedd diwethaf yn dangos gostyngiad graddol (ac eithrio 2013/2014, 2016/2017 a 2021/2022). Cafwyd gostyngiad sylweddol rhwng 2014/2015 a 2024/2025 (30%).

**Ymrwymiad 2:**

***Byddwn yn ymateb yn gyflym ac yn effeithlon bob tro y byddwn yn derbyn galwad frys 999 i fynd at dân mewn annedd.***

Rydyn ni wedi ymrwymo i ymateb yn gyflym ac effeithlon pan fydd y gweithredwr yn rhoi galwadau 999 brys drwodd i ni.

Mae ein cyfleuster rheoli tân brys ar gael o hyd bob awr o'r dydd bob dydd o'r flwyddyn, gyda threfniadau arbennig ar waith ar gyfer trosglwyddo galwadau'n ddi-dor o'r naill gyfleuster rheoli i'r llall pe bai tarfu difrifol neu ymchwydd yn nifer y galwadau sy'n dod i mewn ar yr un pryd.

Mae systemau mapio ac electronig soffistigedig yn ein helpu i: a) nodi lleoliad y digwyddiad y rhoir gwybod amdano a b) anfon yr adnodd mwyaf priodol sydd ar gael i fynd at y digwyddiad.

---

***Yn 2024/2025, fe wnaethom ymdrin â 22,779 o alwadau 999 brys i gyd.***

---

Mae gwybod ble mae angen ein gwasanaethau yn mynnu sgiliau arbenigol i gael gwybodaeth yn effeithiol gan alwyr a allai, er enghraifft, fod yn anghyfarwydd â'r ardal lle maen nhw, yn ofnus neu mewn trallod, yn ifanc iawn, neu'n ymgodymu ag anawsterau cyfathrebu neu iaith.

Sgìl pwysig arall yw gallu gwybod pan fydd galwr yn cam-drin y system 999 drwy honni ar gam fod yna argyfwng pan nad oes, mewn gwirionedd. Mae'n drosedd gwneud galwadau diangen i'r gwasanaethau brys yn fwriadol. Yn anffodus, nid yw hynny fel petai'n atal lleiafrif o bobl sy'n cadw'r llinellau 999 yn brysur ac yn

dargyfeirio gwasanaethau oddi wrth bobl a allai fod mewn sefyllfa sy'n berygl bywyd gwirioneddol. Bob tro y byddwn yn mynd allan at un o'r galwadau diangen maleisus hyn, mae'n gwastraffu amser ac arian ac yn rhoi gweddill y gymuned mewn mwy o berygl.

Mewn 19% o achosion, roeddem yn gallu cadarnhau nad oedd y galwadau hyn yn ddilys ac felly osgoi defnyddio adnoddau yn ddiangen i fynd allan.

**Ymrwymiad 3:**
***Byddwn yn cyrraedd tanau mewn anheddau yn gyflym gyda'r offer cywir i ymdrin â nhw.***

Ar ôl i ni ateb yr alwad 999 frys a dyrannu'r adnoddau mwyaf priodol i fynd allan i ddechrau at y digwyddiad, ein blaenoriaeth nesaf yw cyrraedd y digwyddiad yn gyflym, yn ddiogel a bod â'r cyfarpar priodol i ddelio ag ef.

---

***Yn 2024/2025 fe wnaethom ymateb i 9% o danau mewn anheddau o fewn 1-5 munud, 49% o fewn 5-10 munud, 24% o fewn 10-15 munud a 18% mewn dros 15 munud. Mae'r amseroedd ymateb hyn yn cynnwys yr amser y mae'n ei gymryd i bersonél gyrraedd yr orsaf dân yn ogystal â'r amser teithio, felly gall nifer o bethau effeithio ar y ffigurau cyflymder ymateb, gan gynnwys y ddaearyddiaeth drefol/wledig a natur rhwydweithiau ffyrdd yn yr ardal.***

---

Mae cyflymder yr ymateb i danau mewn anheddau yn hynod bwysig, ond ni allwn orbwysleisio pwysigrwydd atal y tanau hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf, a chael o leiaf un larwm mwg gweithredol wedi'i osod a llwybr dianc wedi'i gynllunio ymlaen llaw rhag ofn y bydd tân. Fodd bynnag, os bydd tân mewn annedd wedi digwydd, rydyn ni'n sicrhau bod gan ein criwiau diffodd tân gyfarpar priodol i ddelio ag ef.

Rydym yn arfogi ein diffoddwyr tân ag offer gwarchod personol ac offer diffodd tân o ansawdd uchel. Rydym yn mynnu eu bod yn ffit ac yn iach yn weithredol, ac rydyn ni'n sicrhau bod eu sgiliau'n cael eu hailasesu a'u hymarfer yn rheolaidd. Rydyn ni hefyd yn gwirio'n rheolaidd fod y ffordd yr ymdriniodd ein criwiau â digwyddiadau yn cyd-fynd â gweithdrefnau diffodd tân cymeradwy.

Rydyn ni'n cymryd diogelwch ein diffoddwyr tân o ddifrif, o ystyried natur y gwaith y maent yn ei wneud. Yn 2024/2025 aeth ein criwiau at 2,951 o danau mewn amrywiaeth o wahanol fathau o adeiladau ac mewn lleoliadau awyr agored. Wrth fynd i ddigwyddiadau gweithredol, cafodd 10 o staff gweithredol anaf. O'r 10 Anaf, cafodd 1 ei ystyried fel anaf "difrifol", a chafodd 9 eu hystyried yn "fân" anafiadau o dan y Rheoliadau Adrodd ynghylch Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR). O'r 10 anaf, adroddwyd bod 1 ohonynt yn RIDDOR.

***Yn 2024/2025 aeth ein criwiau at 2,951 o danau mewn amrywiaeth o wahanol fathau o adeiladau ac mewn lleoliadau awyr agored. Wrth ddiffodd y tanau hynny, cafodd 10 aelod o staff gweithredol eu hanafu.***

**Ymrwymiad 4:**
***Byddwn yn ymdrin â thanau mewn anheddau yn effeithiol, yn effeithlon ac yn broffesiynol.***

Rydyn ni wedi ymrwymo i ymdrin â thanau'n effeithiol, yn effeithlon, ac yn broffesiynol. I'r perwyl hwn, rydyn ni'n arfogi ein criwiau tân tra hyfforddedig â'r sgiliau, gwybodaeth, offer diffodd tân, a'r cymorth rheoli cywir fel y byddant wedi'u paratoi'n gywir i ddelio ag amgylchiadau'r tân mewn annedd, beth bynnag yw'r amgylchiadau hynny.

***Yn 2024/2025, o'r holl danau damweiniol mewn anheddau yr aethom allan atynt, cafodd 382 eu cyfyngu'n llwyddiannus o fewn yr ystafell lle cychwynasant, heb ledaenu ymhellach.***

Er y gallai nifer o ffactorau gyfrannu at yr ystadegyn hwn a fyddai y tu hwnt i reolaeth y criwiau a aeth allan, megis pa mor hir y cymerodd hi i rywun ddarganfod y tân yn y lle cyntaf, a oedd drysau mewnol wedi'u cau ai peidio i helpu i atal y tân rhag lledaenu, a pha mor bell i ffwrdd o orsaf dân yr oedd yr annedd, rydyn ni'n dal i ystyried bod hwn yn ddangosydd rhesymol o'n llwyddiant diffodd tân.

Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd ymchwil a gwelliannau offer ac yn sicrhau ein bod yn buddsoddi amser ac ymdrech i gadw mewn cysylltiad â'r datblygiadau diweddaraf.

**Ymrwymiad 5:**
***Byddwn yn cyfrannu at gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau ar ôl tanau mewn anheddau.***

Rydyn ni wedi ymrwymo i helpu i gael pethau'n ôl i drefn mewn cymunedau yn dilyn tanau mewn anheddau. Mae tân yn y cartref yn gallu gwneud i bobl deimlo'n fregus iawn. Pan fydd pobl wedi colli eu heiddo, bydd angen cymorth ymarferol ac emosiynol arnynt. Pan fydd pobl wedi cael eu hanafu neu eu lladd yn y tân, gall y profiad effeithio ar y gymuned gyfan yn ogystal ag ar yr unigolyn a'i deulu a'i ffrindiau agos.

Am y rheswm hwn, nid yw rôl y Gwasanaeth Tân ac Achub wrth gefnogi cymunedau yn dod i ben pan fydd y tân wedi'i ddiffodd a phawb wedi'i ganfod.

Ym mhob achos, ymchwilir i achos y tân a'i gofnodi'n ofalus. Bydd pob manylyn o ran sut a ble y dechreuodd y tân, pa mor bell y lledaenodd, unrhyw amgylchiadau

arbennig, unrhyw ffactorau penodol a gyfrannodd at y tân, yn cael eu cofnodi fel ffynhonnell dysgu, ymchwil a monitro yn y dyfodol.

Os oes rhesymau dros gredu bod tân wedi'i ddechrau'n fwriadol mewn annedd, naill ai gan rywun sy'n byw yno neu gan rywun arall, bydd hyn yn cael sylw dilynol gyda'r Heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill.

Mewn rhai adeiladau, megis blociau o fflatiau neu dai a feddiannir gan nifer o denantiaid gwahanol, gallai'r ymchwiliadau ar ôl y digwyddiad nodi bod landlord wedi methu â sicrhau'r lefel angenrheidiol o ddiogelwch tân. Yna gallai ein hymchwilwyr tân arbenigol fod yn rhan o ymchwiliad troseddol ac achos llys.

Os canfyddir bod tân wedi dechrau'n ddamweiniol, byddwn yn ymgymryd â rhyw fath o weithgaredd neu ymgyrch Diogelwch Cymunedol yn y cyffiniau, gan gynnig cyngor a thawelwch meddwl ar ffurf Archwiliad Diogelwch yn y Cartref am ddim.

**Ymrwymiad 6:**
***Byddwn yn ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau, ac yn dal y bobl berthnasol i gyfrif pan fo'n briodol gwneud hynny.***

Rydyn ni bob amser yn ymchwilio i achosion tanau mewn anheddau. Mewn llawer o achosion, bydd achos a tharddiad tân yn glir ac yn syml iawn, ond mewn eraill bydd angen ymchwiliad fforensig, mwy manwl i ganfod achos mwyaf tebygol y tân. Dim ond mewn lleiafrif bach o achosion y mae'r achos yn 'anhysbys'. Yn 2024/2025 cofnodwyd bod gan 26 o danau mewn anheddau achos anhysbys.

Os amheuir trosedd, bydd yr ymchwiliad i'r tân yn cael ei gynnal gyda'r Heddlu. Mae'n debygol y bydd pobl sy'n cael eu drwgdybio o roi annedd ar dân yn fwriadol yn wynebu erlyniad troseddol, er mewn rhai achosion efallai nad dyma'r unig gam gweithredu sydd ar gael - er enghraifft os yw'r tân wedi ei gychwyn gan blentyn ifanc.

---

***Yn 2024/2025 aethom allan at 446 o danau mewn anheddau, a chanfuwyd bod 34 ohonynt wedi'u dechrau'n fwriadol.***

---

Mewn rhai mathau o adeiladau preswyl, megis fflatiau a thai amlfeddiannaeth, mae'r ardaloedd cymunedol a'r ardaloedd a rennir yn destun rheoliadau sy'n mynnu bod gan bwy bynnag sy'n gyfrifol am yr adeilad (fel y landlord neu reolwr yr adeilad) drefniadau diogelwch tân da ar waith. Gall methu â gwneud hynny arwain at gamau gorfodi ac erlyn y person cyfrifol, gyda'r posibilrwydd o garcharu a/neu ddirwyon anghyfyngedig.

Fel awdurdod gorfodi, rydyn ni'n sicrhau bod personau cyfrifol yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth hon a gallwn ddewis o blith ystod o opsiynau gorfodi sydd ar gael i ni, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb a risg y tramgwydd.

Mewn rhai mathau o adeiladau preswyl, megis fflatiau a thai amlfeddiannaeth, mae'r ardaloedd cymunedol a'r ardaloedd a rennir yn destun rheoliadau sy'n mynnu bod gan bwy bynnag sy'n gyfrifol am yr adeilad (fel y landlord neu reolwr yr adeilad)

drefniadau diogelwch tân da ar waith. Gall methu â gwneud hynny arwain at gamau gorfodi ac erlyn y person cyfrifol, gyda'r posibilrwydd o garcharu a/neu ddirwyon anghyfyngedig.

Fel awdurdod gorfodi, mae'r Gwasanaeth yn sicrhau bod personau cyfrifol yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth hon ac mae'n gallu dewis o blith ystod o opsiynau gorfodi sydd ar gael i ni, gan ddibynnu ar ddifrifoldeb a risg y tramgwydd.

***Yn 2024/2025 fe wnaethom gyflwyno 34 o Hysbysiadau Gorfodi a 22 Hysbysiad Gwahardd mewn perthynas ag adeiladau a fethodd â chydymffurfio â'r gofynion a geir yng Ngorchymyn Diwygio Rheoleiddiol (Diogelwch Tân) 2005. Fe wnaethom ymdrin â 187 o Gŵynion Diogelwch Tân ac ymgymryd â 1227 o Ymweliadau Archwilio a Gynlluniwyd.***

**Ymrwymiad 7:**

***Byddwn yn ceisio cynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn a wnawn.***

Mae'r Gwasanaeth yn ymdrechu'n barhaus i gynnal safonau uchel a gwella agweddau ar yr hyn y mae'n ei wneud. O dan ddeddfwriaeth, mae Awdurdodau Tân ac Achub yn cael eu hystyried yn 'Awdurdodau Gwella Cymreig' a disgwylir iddynt adolygu a gwella eu perfformiad eu hunain yn rheolaidd trwy broses ffurfiol.

## Ein Hamcanion Gwella a Llesiant

Bob blwyddyn, fel rhan o'r broses cynllunio gwella, mae Amcanion Gwella a Llesiant yn cael eu hadolygu a'u datblygu. Mae'r Amcanion Gwella a Llesiant yn dweud wrth staff, cymunedau, a rhanddeiliaid pa welliannau oedd yn mynd i gael eu gwneud yn ystod 2024/2025.

Datblygwyd wyth Amcan Gwella a Llesiant i leihau risg a gwella diogelwch cymunedau. Dyma'r amcanion hynny:

**Amcan Gwella a Llesiant Un** – Byddwn yn gwella ein diwylliant sefydliadol i sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y safonau a ddisgwylir gan Wasanaeth Tân ac Achub modern.

**Amcan Gwella a Llesiant Dau** - Byddwn yn parhau i fod wedi ymrwymo i wneud gwelliannau i'n system Dyletswydd Ar Alwad i gefnogi anghenion ein cymunedau.

**Amcan Gwella a Llesiant Tri** – Byddwn yn adolygu'r risgiau o fewn ein cymunedau ac i'n pobl.

**Amcan Gwella a Llesiant Pedwar** – Byddwn yn adolygu ac yn gweithredu newidiadau i'r ffordd yr ydym yn ymateb i argyfyngau i fodloni gofynion newidiol ein cymuned.

**Amcan Gwella a Llesiant Pump** – Byddwn yn adolygu ein strategaethau Atal (Diogelwch Cymunedol) ac Amddiffyn (Diogelwch Tân Busnes) yn barhaus i dargedu a chefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

**Amcan Gwelliant a Llesiant Chwech** – Byddwn yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â'n cymunedau i ddeall eu disgwyliadau ohonom.

**Amcan Gwella a Llesiant Saith** – Byddwn yn gweithio mewn ffordd amgylcheddol gyfeillgar a chynaliadwy.

**Amcan Gwelliant a Llesiant Wyth** – Byddwn yn datblygu ein gofynion fflyd ac offer fel y gallwn ymateb yn effeithiol i argyfyngau.

**Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.**
**Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.**
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

## Amcan Gwella a Llesiant 1 – Diwylliant Sefydliadol

**1**

**Byddwn yn gwella ein diwylliant sefydliadol i sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y safonau a ddisgwylir gan Wasanaeth Tân ac Achub modern.**





**Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:**

**Cam gweithredu 1.1:** Ymgorffori'r Gweithgor Diwylliant a Chynhwysiant a'r Bwrdd Diwylliant a Chynhwysiant o fewn y Gwasanaeth er mwyn cefnogi a mynd i'r afael â'r themâu a godwyd yn yr Archwiliad Diwylliannol ac ysgogi gwelliant diwylliannol.

**Cam gweithredu 1.2:** Gwerthuso camau gweithredu ac ymgorffori gwelliannau o'r llinell gymorth adrodd annibynnol Speak Up.

**Cam gweithredu 1.3:** Datblygu Strategaeth Llesiant i gefnogi iechyd a lles ein staff.

**Cam gweithredu 1.4:** Ymgorffori'r defnydd o arfarniadau staff i gefnogi perfformiad a chynnydd staff.

**Cam gweithredu 1.5:** Adolygu a gweithredu canfyddiadau ein prosesau recriwtio i wella niferoedd staffio.

**Cam gweithredu 1.6:** Gweithredu argymhellion ein harolwg Archwiliad Diwylliannol a gwerthuso'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

**Cam gweithredu 1.7:** Cyflwyno cyfleoedd hyfforddi newydd i staff sy'n dymuno symud ymlaen.

**Datganiad cynnydd Amcan Un ar gyfer cyfnod adrodd 2024/2025:**

- Sefydlwyd y Bwrdd Diwylliant a Chynhwysiant (C&IB) a'r Gweithgor Diwylliant a Chynhwysiant (C&IWG), sy'n cynnwys trawstoriad o'r Gwasanaeth, gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal bob deufis.
- Datblygwyd y Cynllun Gweithredu Diwylliant a Chynhwysiant i flaenoriaethu sawl thema allweddol, gan gynnwys cyfathrebu ac ymgysylltu â'r sefydliad ehangach ar faterion sy'n ymwneud â **thaith ddiwylliannol y Gwasanaeth,**

**ymgorfforiymddygiadau'r Gwasanaeth** a chefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno **pecyn hyfforddi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** diwygiedig.

- Cynhyrchodd y Gweithgor themâu sy'n cyd-fynd ag argymhellion yr arolwg a'r archwiliad o'r diwylliant, gan ddefnyddio pleidlais i nodi meysydd ffocws i'w blaenoriaethu, a oedd yn dangos bod diddordeb yn y meysydd pwnc canlynol.
- *Diogelwch seicolegol.*
- *Siarad heb ofn.*
- *Ymddiriedaeth yn y sefydliad.*
- *Deall ymddygiadau'r Gwasanaeth.*
- *Sut i newid ac ymgorffori diwylliant.*
- *Opsiynau arweinyddiaeth ac atebolrwydd.*
- Cynhaliodd y Bwrdd Diwylliant a Chynhwysiant ddiweddariad ar y cynnydd mewn perthynas ag Adroddiad Amlygu Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), ynghyd â dadansoddiad o'r bylchau mewn perthynas â'r argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad Fenella Morris KC ar Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
- Datblygwyd cylchlythyr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gweithgor Diwylliant a Chynhwysiant a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Gweithredu.
- Gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno pecyn hyfforddi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant diwygiedig, cwblhawyd hyfforddiant Gwyliwr Gweithredol a'i gyflwyno ar draws y Gwasanaeth i'r holl staff ym mis Medi 2024. Darparodd yr hyfforddiant y sgiliau angenrheidiol fel bod staff, lle bo hynny'n bosibl, yn gallu:
  - *Adnabod, herio a rhoi gwybod am ymddygiadau annerbyniol*
  - *Esbonio pwysigrwydd herio ymddygiadau amhriodol iddyn nhw eu hunain, cydweithwyr, y sefydliad a chymunedau.*
  - *Defnyddio ystod o dechnegau ymarferol i dynnu sylw mewn modd cadarnhaol at gydweithwyr nad yw eu hymddygiadau yn bodloni'r safonau.*
  - *Ymarfer a defnyddio technegau yn eu bywyd gwaith.*
- Hwylusodd y Prif Swyddog Tân sawl gweminar, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am daith ddiwylliannol y Gwasanaeth a'r cynnydd sy'n cael ei wneud.
- Cyhoeddwyd Adolygiad Crest o Daith Ddiwylliannol y Gwasanaeth ym mis Chwefror 2025. Gwnaed cynnydd mewn meysydd allweddol, gan gynnwys troi argymhellion yr adroddiad yn gamau gweithredu i lywio diwylliant y gweithle, ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid ar bob lefel i feithrin ymwybyddiaeth a chyfranogiad, sicrhau bod newid yn ystyrlon ac yn adlewyrchu anghenion pawb, cynnal tryloywder ac atebolrwydd trwy ddiweddariadau rheolaidd a chyfleoedd adborth gyda staff a rhanddeiliaid ehangach.
- Er mwyn parhau i ddatblygu a gwella'r diwylliant yn y gweithle, sefydlwyd Tîm Pobl a Diwylliant (PACT). Bydd y tîm yn dod â safbwyntiau, profiadau a sgiliau

o bob rhan o'r Gwasanaeth ynghyd er mwyn helpu i nodi, datblygu a chyflwyno mentrau newid diwylliannol yn unol â'r argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad Crest.

- Mae gwaith wedi symud ymlaen i recriwtio Arbenigwr Diwylliant Sefydliadol trwy Fframwaith NEPO 3 a Bloom Procurement.
- Datblygwyd Strategaeth a Chynllun Gweithredu Lles i'w cymeradwyo ym mis Mehefin 2025, i hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw ac ymdeimlad cyffredinol o les. Bwriad y Strategaeth Lles oedd gwella iechyd corfforol, meddyliol, ac emosiynol staff, gan sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi a'u bod yn gallu cyflawni eu swyddi yn effeithiol. Mae'r Strategaeth yn cyfeirio staff at adnoddau a chanllawiau, gan alluogi sgyrsiau ystyrlon a datblygu nodau i wella lles cyffredinol.
- Lansiwyd cynllun Hyfforddi a Mentora newydd i ddarparu gwasanaeth proffesiynol sy'n cefnogi datblygiad yr holl staff yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd eisiau datblygu o fewn eu swydd bresennol neu ddatblygu eu gyrfa a chael dyrchafiad, er budd yr unigolion a'r sefydliad.
- Cafodd y prosbectws Pobl a Datblygu Sefydliadol ei adolygu a'i gyhoeddi ar gyfer 2025 ac roedd yn cynnwys

- *Dyfarniad lefel 2, 3 a 5 y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth.*
- *Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd.*
- *Lefel 3 Addysg a Hyfforddiant.*
- *Sicrhau Ansawdd Mewnol Lefel 4*

- Cynhwyswyd cyfres o weithdai ar y Prosbectws hefyd, gan gynnwys datblygu gwydnwch, deallusrwydd emosiynol, diogelwch seicolegol, arweinyddiaeth gynhwysol a rheoli straen ac ymwybyddiaeth iechyd meddwl.

- Adolygwyd Gweithdrefn Rheoli Straen yn y Gwaith y Gwasanaeth a'i hailgyhoeddi ym mis Tachwedd 2024 ac roedd yn cynnwys Asesiad Risg ynghylch Straen i gefnogi'r holl staff.
- Sefydlwyd Llinell Adrodd Annibynnol (Speak Up), Bwrdd Safonau Proffesiynol a Bwrdd Diogelu.

- Cynhaliwyd adolygiad llawn o'r adrannau Datblygu Pobl a Sefydliadol a Darparu Hyfforddiant gan y Gyfarwyddiaeth Ymateb Brys a Hyfforddiant a Datblygu.
- Wrth baratoi ar gyfer yr ymgyrch recriwtio amser cyflawn, gwnaed newidiadau i'r broses a'r ffyrdd y mae'r Gwasanaeth yn denu unigolion i rôl diffoddwr tân amser cyflawn, gan gynnwys defnyddio fideos i helpu i annog cronfa eang o ymgeiswyr, y broses gofrestru, holiaduron ymddygiadol a sefyllfaol a'r gallu ar-lein i gael eu cwblhau ar yr un pryd, a gwnaed newidiadau i'r Prawf Dethol Pwynt Mynediad (POEST).
- Datblygwyd gwaith gydag One Step North i archwilio cyfleoedd mewn technoleg arloesol a rhyngweithiol, gan gynnwys modelu 3D.

- Archwiliwyd opsiynau i ddiweddaru'r broses recriwtio ac ymgorffori Ymddygiadau'r Gwasanaeth yn y broses ymgeisio, cwestiynau cyfweliad a'r broses dyrchafiad.

**Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod**


- Penodi Arbenigwr Diwylliant i'w gwblhau a'i gyfathrebu ar draws y Gwasanaeth.
- Cynllun Gweithredu Lles, i gyd-fynd â'r Strategaeth Lles, i'w symud ymlaen trwy lwybr llywodraethiant mewnol y Gwasanaeth cyn ei gyhoeddi.
- Symud ymlaen i gaffael contract prawf 24 mis ar gyfer darparu gwasanaethau gofal iechyd preifat.
- Penodi Cynghorydd Iechyd a Lles Meddyliol i weithredu fel y swyddog arweiniol ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd a lles meddyliol gweithwyr y Gwasanaeth a darparu cyngor, rheolaeth a staff ar faterion sy'n ymwneud â lles seicolegol staff.
- Ystyried a gweithredu'r canfyddiadau yn dilyn y Glasbrint ar gyfer newid: Gweithdy Addasu ein Gwasanaeth wedi'i gynnal ym mis Mehefin 2025, a ystyriodd y blaenoriaethau strategol sy'n ymwneud â phobl, diwylliant ac arweinyddiaeth, strwythur sefydliadol a threfniadau llywodraethiant mewnol.
- Ar ôl adolygiad cynhwysfawr, diweddaru proses arfarnu staff y Gwasanaeth i sicrhau ei bod yn darparu proses arfarnu staff gweithredol a chymorth, sy'n cyd-fynd yn well â chyfleoedd hyfforddi a dilyniant ar gyfer swyddi penodol.

***Sut y cyfrannodd Amcan Un at y Pum Ffordd o Weithio?***

| ***Tymor hir** - Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.* | ***Atal** - Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.* | ***Integreiddio** -Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.* | ***Cydweithredu** - Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun.* | **Cynnwys** - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn *cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.* |
|---|---|---|---|---|
| Bydd gwella'r diwylliant sefydliadol yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn gweithredu o fewn y safonau a ddisgwylir gan Wasanaeth Tân ac Achub modern, trwy esblygu yn unol â heriau'r presennol a'r dyfodol. Mae buddsoddi mewn datblygu staff, darpariaethau lles, technoleg a phartneriaethau cymunedol yn helpu'r Gwasanaeth i baratoi ar gyfer risgiau sy'n dod i'r amlwg a newidiadau cymdeithasol. | Bydd cynllunio'r gweithlu yn effeithiol yn sicrhau bod gan y Gwasanaeth y bobl iawn wedi'u recriwtio a'u hyfforddi, yn gweithio yn y lleoliadau cywir i ddarparu'r safonau gwasanaeth uchaf i'w gymunedau. Bydd hefyd yn sicrhau bod arferion recriwtio a datblygu ac arferion gwaith yn esblygu i ddiwallu anghenion newidiol y cymunedau. | Bydd gwella'r diwylliant sefydliadol a llesiant yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn gweithio'n gydlynol â sefydliadau partner a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfrannu at newidiadau cymdeithasol a gwella canlyniadau i gymunedau. | Bydd gwella diwylliant sefydliadol a llesiant yn parhau i gefnogi rhannu arfer da ar draws sefydliadau a sectorau i sicrhau mai dim ond yr arferion gorau o ran pobl sy'n cael eu gweithredu. | Mae ymgysylltu â'r gweithlu, ein partneriaid ac asiantaethau eraill ynglŷn â'r sgiliau a'r cymwyseddau sydd eu hangen i wasanaethu ein cymunedau yn well yn rhan annatod o adrannau Hyfforddi a Datblygu'r Gwasanaeth. |

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

# Amcan Gwella a Llesiant Dau – System Dyletswydd Ar Alwad.




**Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:**

**Cam gweithredu 2.1:** Cynnwys ein holl staff mewn ymchwil i wella arferion gwaith a hyrwyddo diwylliant gweithlu cwbl gynhwysol.


**Cam gweithredu 2.2:** Nodi'r gwelliannau sydd eu hangen i wella ein system Dyletswydd Ar Alwad.

**Cam gweithredu 2.3:** Gwerthuso'r gwelliannau sydd wedi'u gweithredu er mwyn deall eu heffeithiolrwydd.

**Datganiad cynnydd Amcan Dau ar gyfer cyfnod adrodd 2024/2025:**

- Cynnydd o 2.3% yn yr argaeledd cyffredinol ar gyfer cyfnod adrodd 2023/2024, gyda gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn Rhanbarth y De (Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot).

| Rhanbarth BA | Gogledd % Argaeledd | De % Argaeledd | Gorllewin % Argaeledd | **Cyfanswm % Argaeledd** |
|---|---|---|---|---|
| 2020-21 | 96.7% | 84.4% | 96.5% | **94.9%** |
| 2021-22 | 91.7% | 68.7% | 90.0% | **87.9%** |
| 2022-23 | 88.7% | 65.1% | 86.9% | **84.7%** |
| 2023-24 | 87.4% | 59.8% | 87.1% | **83.5%** |
| 2024-25 | 89.3% | 67.6% | 88.2% | **85.9%** |
| **Total** | **90.8%** | **69.1%** | **89.7%** | **87.4%** |




- Roedd cyfathrebu dwyffordd yn parhau i ddigwydd gyda staff Ar Alwad trwy gyfrwng diweddariadau misol, fideos YouTube byr a chyfarfodydd wyneb yn wyneb.
- Cynhaliwyd cynhadledd Ar Alwad ar 28 Ebrill 2024 a chafwyd adborth cadarnhaol gan y rhai a oedd yn bresennol.
- Cafodd cyfweliadau aros eu treialu yn Rhanbarth y Gogledd.
- Cafodd data o gyfweliadau ymadael ei gywain i helpu i ganfod patrymau er mwyn dylanwadu ar feysydd y dylid canolbwyntio arnynt yn y dyfodol.
- Archwiliwyd opsiynau i ddatblygu Ap penodol Ar Alwad i wella’r cyfathrebu â'r sector Ar Alwad.
- Cyflwynwyd taliadau cydnabyddiaeth i gydnabod ymroddiad diwyro staff Ar Alwad sydd wedi gwasanaethu eu cymunedau am bum mlynedd a mwy.
- Gwnaed gwelliannau i'r gofynion hyfforddi ar gyfer staff Ar Alwad, gan gynnwys elfen ddewisol i Reolwyr Gwylfa gwblhau elfen ymarferol cyrsiau Offer Anadlu, darparwyd cyfradd cyflog uwch ar gyfer yr holl gyrsiau hyfforddi yr aethpwyd iddynt, cael gwared ar y gofyn i ‘nodi nad ydynt yn gweithio am gyfnod' (*book off*) wrth ddychwelyd i'r orsaf yn dilyn digwyddiad gweithredol.
- Darparwyd lwfans ffôn symudol i ddiffoddwyr tân Ar Alwad i gynorthwyo gyda chael gafael ar wybodaeth.
- Cyflogwyd eiriolwyr recriwtio Ar Alwad X2 i gefnogi ymgyrchoedd recriwtio adrannol, cyflwyno rhaglenni diogelwch cymunedol a chefnogi a chynnal yr ymateb i ddigwyddiadau brys.
- Cwblhawyd 25 o fentrau recriwtio rhwng Awst 2024 a Ionawr 2025.
- Gwnaed addasiadau i fyrhau'r amseroedd recriwtio o fynegi diddordeb i gyflogaeth ar gyfer ymgeiswyr Ar Alwad, gyda’r newidiadau a wnaed i'r cyrsiau Modiwl A bellach yn cael eu cwblhau yn yr orsaf, gan leihau'n sylweddol yr amser aros yn y broses recriwtio.
- Cynhaliwyd adolygiad o'r cwrs Modiwl B hefyd gyda'r bwriad o leihau'r effaith ar ymgeiswyr Ar Alwad o ran amser i ffwrdd o'u prif gyflogaeth.

- Datblygwyd strategaethau cynllunio a recriwtio gweithlu yn y gorsafoedd gyda chynlluniau wedi'u creu a oedd yn blaenoriaethu gorsafoedd gyda dull yn seiliedig ar risg.
- Darparwyd £1000.00 ar gyfer gorsafoedd â dau beiriant a £500.00 ar gyfer gorsafoedd ag un peiriant i gynnal diwrnodau cydnabod teuluoedd a chyflogwyr.
- Datblygwyd cynlluniau recriwtio 12 mis ar gyfer ardal pob gorsaf er mwyn ymgysylltu â chyflogwyr Ar Alwad.
- Adolygwyd y Profion Pwynt Mynediad (POET) i sicrhau eu bod mor effeithlon â phosibl, gan sicrhau bod yr amser pan mae angen bod yn bresennol yn cael ei gadw cyn ised â phosibl, gan leihau'r effaith ar unrhyw ymgeiswyr posibl. Roedd y newidiadau a wnaed yn cynnwys cwblhau'r rhan fwyaf o brofion dethol ar yr un diwrnod, gyda dim ond y prawf meddygol a'r mesur ar gyfer cit yn cael eu cwblhau ar ddiwrnod gwahanol.
- Archwiliwyd opsiynau ar gyfer adnewyddu/disodli system anfon allan Rappel, i gefnogi aelodau staff Ar Alwad yn y ffordd orau bosibl.
- Cyflwynwyd bandiau cyflog newydd ar gyfer diffoddwyr tân Ar Alwad ym mis Ionawr 2025, gyda chynnydd sylweddol mewn cyflog yn seiliedig ar argaeledd. Er mwyn cefnogi'r cais, datblygwyd cynlluniau gweithredu gydag opsiynau posibl ar gyfer staff.
- Caffaelwyd system feddalwedd i gefnogi argaeledd, recriwtio a sgiliau Ar Alwad (OARS), sy'n galluogi defnyddio data yn fwy effeithiol i fynd i'r afael â heriau critigol mewn recriwtio, amrywiaeth a chynllunio'r gweithlu.
- Sefydlwyd prosiect corfforaethol ar gyfer adnewyddu/disodli system anfon allan Rappel. Cadeiriodd yr Arweinydd Amcan 2 is-grŵp i ddatblygu manyleb y meddalwedd, cyn mynd allan i dendro.
- Parhaodd y gwaith gyda grwpiau strategol ac ymarferwyr Ar Alwad Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC), gan gynnwys darparu cefnogaeth i brosiect gwella'r NFCC gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o greu newid cadarnhaol a datblygu'r adolygiad o wefan genedlaethol Ar Alwad.
- Archwiliwyd treial ar gyfer cynllun peilot gyrrwr nad yw'n gwisgo offer anadlu i gynorthwyo gyda chadw staff.
- Adolygwyd a diweddarwyd yr adnoddau recriwtio, gan gynnwys posteri, baneri gorsafoedd a thaflenni recriwtio'r Gwasanaeth.
- Archwiliwyd cyfleoedd i annog mwy o staff y Llyfr Gwyrdd i ymuno â'r garfan Ar Alwad, drwy ddatblygu contract deuol sy'n caniatáu i aelodau staff y Llyfr Gwyrdd sy'n Ddiffoddwyr Tân Ar Alwad fanteisio ar rai buddion.

**Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod**


- Gwella amodau gwasanaeth y Llyfr Gwyrdd/Diffoddwr Tân Ar Alwad, gan sicrhau bod y Gwasanaeth yn arwain trwy esiampl mewn perthynas â rhyddhau a chefnogi diffoddwyr tân Ar Alwad y Llyfr Gwyrdd.
- Cyflwyno gwell cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer trefniadau cwmpasu Gŵyl y Banc sy'n cyd-fynd â'r hyn y mae diffoddwyr tân amser cyflawn yn ei gael ar hyn o bryd.

- Trosi swyddi Eiriolwyr Recriwtio Ar Alwad dros dro yn Swyddogion Cyswllt Ar Alwad parhaol, gyda chylch gwaith estynedig i ddarparu cymorth ar draws ystod ehangach o swyddogaethau o fewn y system ddyletswydd Ar Alwad.

### *Sut y cyfrannodd Amcan Dau at y Pum Ffordd o Weithio*

| ***Tymor hir -*** *Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.* | ***Atal -*** *Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.* | ***Integreiddio*** *-Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.* | **Cydweithredu -** *Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun.* | **Cynnwys -** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn *cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.* |
|---|---|---|---|---|
| Mae gwneud gwelliannau i'r system Dyletswydd Ar Alwad yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn fwy parod i fynd i'r afael â heriau'r presennol a'r dyfodol, trwy ymateb yn effeithiol a diogelu cymunedau. Mae hefyd yn sicrhau gweithlu cynaliadwy er mwyn parhau i wasanaethu cymunedau. | Bydd gwneud gwelliannau i'r system Dyletswydd ar Alwad yn cynorthwyo'r Gwasanaeth i weithredu i atal problemau rhag cynyddu drwy gael system Dyletswydd ar Alwad effeithlon ac effeithiol sy'n sicrhau cefnogaeth brydlon i gymunedau. | Bydd gweithio ar y cyd â Gwasanaethau Tân ac Achub a chyrff sector cyhoeddus eraill i wneud gwelliannau i'r system dyletswydd Ar Alwad yn helpu i sicrhau canlyniadau parhaol i gymunedau. | Mae dull cydweithredol gyda staff a phartneriaid allanol yn helpu i gael gwared ar rwystrau i heriau recriwtio a chadw personél Ar Alwad, ac yn cynorthwyo i greu partneriaethau cryf. | Mae cynnwys staff yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau Ar Alwad yn helpu i sicrhau eu bod yn addas i'r diben a gall y safbwyntiau a'r adborth a gesglir ddylanwadu ar newid cadarnhaol. |

# Amcan Gwella a Llesiant Tri – Gorsafoedd Tân.




**Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:**

**Cam gweithredu 3.1:** Adolygu ein sgiliau arbenigol ar draws ardal y Gwasanaeth.

**Cam gweithredu 3.2:** Adolygu lleoliadau gorsafoedd tân i adlewyrchu'r newid mewn demograffeg a risg gymunedol.

**Cam gweithredu 3.3:** Adolygu a gwerthuso'r ffordd y mae ein gwasanaethau atal ac amddiffyn yn cael eu darparu.

**Cam gweithredu 3.4:** Cynnal a gwella Iechyd a Diogelwch yn barhaus ar gyfer ein personél, ein hasedau, a’n gweithleoedd.

**Cam gweithredu 3.5:** Datblygu a chynnal polisïau a gweithdrefnau mewn perthynas â rheoli halogyddion a gwreiddio’r rhain o fewn y Gwasanaeth.

**Datganiad cynnydd Amcan Tri ar gyfer cyfnod adrodd 2024/2025:**

- Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i ganfod cyfres o opsiynau i ddarparu dull o ddarparu gwasanaeth Achub â Llinell y Gwasanaeth mewn modd sy’n canolbwyntio’n fwy ar y person dan sylw.
- Cwblhawyd ymchwil ac adolygiad ar gyfer ymateb i danau gwyllt, a lansiwyd y Gweithgor Tanau Gwyllt i ddatblygu cynllun tanau gwyllt strategol.
- Ffurfiwyd partneriaethau gyda Pharciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro, a gwnaed gwaith cydweithredol gyda thirfeddianwyr a wardeiniaid y parciau.
- Cynhaliwyd cyfarfod Cymru Gyfan ym mis Ebrill 2025 i drafod y broses gaffael gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gyfer darparu asedau hofrennydd.
- Diweddarwyd system cadw cymhwysedd PDR Pro y Gwasanaeth i gynnwys pecynnau Hyfforddiant Tanau Gwyllt Cenedlaethol newydd Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân.

- Ymgymerwyd â gwaith i greu atebion amlbwrpas ystwyth yn unol â'r rhaglen gyfalaf i amnewid cerbydau, gan gynnwys ymchwilio ac adolygu, cywain data ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Bu Operational Research in Health (ORH) yn dilysu data'r Gwasanaeth ac yn gwneud rhywfaint o fodelu rhagarweiniol yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd, yn ogystal â phrofi rhai senarios Ymateb Brys. Bydd defnyddio'r data hwn yn cynorthwyo gyda modelu atebion atal, amddiffyn ac ymateb ar y cyd ag ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid i gywain rhagor o wybodaeth ynghylch gofynion y Gwasanaeth a chymunedau fel ei gilydd.
- Crëwyd proffiliau Risg Gorsaf Enghreifftiol ar gyfer pob system ddyletswydd: 2-2-4 (Treforys), Criw Dydd (Aberystwyth) ac Ar Alwad (Dinbych-y-pysgod). Wedi i'r Gorsafoedd eu cwblhau, bydd Proffiliau Risg Gorsafoedd yn helpu i ddyrannu adnoddau yn effeithiol a chynllunio ar gyfer digwyddiadau amrywiol trwy nodi peryglon posibl, deall patrymau digwyddiadau a theilwra strategaethau atal, amddiffyn ac ymateb.
- Parhaodd adran Diogelwch Cymunedol y Gwasanaeth i ganfod unigolion agored i niwed sy'n byw yn ein cymunedau. Bydd y proffiliau hefyd yn cael eu defnyddio yn sail i broffiliau hyfforddi a Chynlluniau Hyfforddi Thematig penodol.
- Cynhaliwyd adolygiad o weithredu rhaglen Diogelwch Cymunedol 3 blynedd yn ystod mis Mawrth 2025, i werthuso'r ffordd y darperir gwasanaethau atal ac amddiffyn.
- Ehangodd y tîm Diogelwch Tân Busnes y model cyflawni Amddiffyn rhag Tân i gynnwys y gallu i griwiau tân gweithredol rheng flaen allu cynnal archwiliadau diogelwch tân syml mewn adeiladau. Bydd hyn yn cynyddu nifer yr adeiladau yr ydym yn gallu ymgysylltu â nhw tra hefyd yn cynyddu diogelwch diffoddwyr tân trwy gefnogi cydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelwch tân.
- Adolygwyd hysbysiadau Gwaharddiad 10, ar gyfer hysbysu partïon sydd â buddiant am natur diffygion diogelwch tân difrifol yn dilyn camau gorfodi diogelwch tân. Sicrhaodd yr adolygiad fod rhanddeiliaid yn cael gwybodaeth yn y ffordd fwyaf amserol ac effeithiol bosibl.
- Cafodd y digwyddiad a oedd yn canolbwyntio ar lithro, baglu a chwympo ei adolygu gan y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles (HSWCC), gan nodi gostyngiad cadarnhaol yn nifer yr Anafiadau Ar Ddyletswydd oherwydd Llithro, Baglu a Chwympo y rhoddwyd gwybod amdanynt. 2022 – 8, 2023 – 9, 2024 – 1.
- Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen i gefnogi adolygiad o'r weithdrefn Asesu Risg gyffredinol, gan gynnwys y templed asesu risg a sicrhau ansawdd. Cwblhawyd asesiadau risg cyffredinol ar gyfer yr Adran Fflyd, Peirianneg a Logisteg (FELD), Darparu Hyfforddiant a Gorsafoedd Tân, i gynorthwyo wrth i'r weithdrefn newydd fynd yn fyw.
- Cyflwynodd y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles Gyfradd Digwyddedd Damweiniau o 5 ar gyfer y Gwasanaeth, a fydd yn cael ei monitro gan yr Adran Risg Gorfforaethol a'r Pwyllgor Rheoli Adnoddau ar sail dreigl fesul mis. Roedd yn braf nodi nad oedd unrhyw ddamweiniau wedi'u cofnodi ym mis

Rhagfyr 2024, er gwaethaf sawl storm, a llwyddodd y Gwasanaeth i fynd am 63 diwrnod heb ddigwyddiad.

- Darparwyd hyfforddiant ymchwilio i ddamweiniau a dynladdiad corfforaethol gyda phartneriaid allanol i aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a Phenaethiaid a Dirprwy Benaethiaid adrannau ym mis Mawrth.
- Bu’r adran Risg Gorfforaethol yn adolygu'r defnydd o Gymhorthion Clyw yn y Gwasanaeth ac yn cysylltu â Gwasanaethau eraill i ganfod unrhyw feysydd dysgu allweddol.
- Cynhaliwyd adolygiad o Ddogfen Canllawiau Gweithdrefnol Rheoli Straen y Gwasanaeth gan gynnwys canllawiau / offer rheoli i gefnogi sgyrsiau gydag aelodau o staff, cyn i staff deimlo eu bod wedi'u llethu neu drefnu amser i ffwrdd o'r gweithle.
- Cynhaliwyd adolygiad o Reoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd (COSHH) ar draws y Gwasanaeth, gyda chynnydd da wedi'i wneud.
- Archwiliwyd opsiynau i wella cyfathrebu dwyffordd am iechyd a diogelwch ar draws y Gwasanaeth, er enghraifft cynnwys sgyrsiau Iechyd a Diogelwch mewn gweithgareddau datblygu, o fewn archwiliadau sicrwydd, a sesiynau ymwybyddiaeth i reolwyr sy'n canolbwyntio ar gyfrifoldebau arweinyddiaeth.
- Parhaodd datblygiadau i gael eu gwneud i system Evotix Assure, gan gynnwys cofnodi data ystadegol a pherfformiad sy'n gysylltiedig ag Iechyd a Diogelwch trwy ddangosfwrdd, gan ganiatáu ar gyfer gwell defnydd o ymarferoldeb o fewn y system i gyfathrebu data ystadegol a pherfformiad ar draws y Gwasanaeth.
- Cafodd Sicrwydd Strategol ei ymgorffori fel rhan o broses sicrwydd y Gwasanaeth, gan ddisodli'r Arolygiadau Prif Swyddogion. Cynhaliwyd sawl ymweliad Sicrwydd Strategol yn ystod 2023/2024 a 2024/2025 gyda'r adroddiadau cryno yn cael eu cyhoeddi a'u darparu ar y dudalen Insights, i'w gweld ac i ysgogi dysgu yn ehangach.
- Fel rhan o'r Ddogfen Canllawiau Gweithdrefnol Sicrwydd Strategol, cynhaliodd yr adran Offer a Sicrwydd Gweithredol (OEA) arolygiadau adweithiol i ymateb i ddigwyddiadau, tueddiadau neu faterion a nodwyd. Gallai'r arolygiadau gael eu hysgogi o ganlyniad i rywbeth a fu bron â digwydd, diffygion offer neu fethiant offer, er enghraifft. Rhannwyd y canfyddiadau drwy'r System Ddysgu Weithredol (OLS) a'r Pwyllgor Ymgynghorol Iechyd a Diogelwch a'r Gweithle.
- Dechreuodd y cynllun prawf Monitro Gweithredol gan ddefnyddio Rheolwyr Gorsaf 42 awr Dyletswydd Dydd ym mis Medi 2024 ar sail cyfnod prawf 6 mis. Cynhaliwyd proses werthuso i nodi'r manteision a'r cyfyngiadau i'w hystyried ymhellach.
- Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol (NOG) - Parhaodd y Rhaglen Integreiddio Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol i symud yn ei blaen. Cafodd y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol ar Ddigwyddiadau yn ymwneud ag Anifeiliaid, Tanau a Diffodd Tanau a Thanau mewn Adeiladau eu hymgorffori yng ngweithdrefnau'r Gwasanaeth.
- Datblygwyd 'Gweithdrefn Gorsaf Lân' gan ddefnyddio'r egwyddor parthau budr, trosiannol a glân. Mae hyn yn cyd-fynd â chanllawiau o adroddiad

UCLAN / FBU a Model Skelleftea Sweden a chafodd ei gyflwyno i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth ym mis Tachwedd a chafwyd adborth arno.

- Cyflwynwyd Cofnodi Amlygiad ar gyfer Hyfforddwyr a Hyfforddwyr Cyswllt Offer Anadlu o 01 Ionawr 2025. Datblygwyd un ffurflen i gwmpasu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau hylendid.
- Cynhaliwyd trafodaethau ymwybyddiaeth o ganser gyda darparwr iechyd galwedigaethol y Gwasanaeth, Insync, ynglŷn â chyflwyno sgrinio mewn archwiliadau meddygol arferol.
- Cafodd gwybodaeth feddygol ei chynnwys ar gardiau bach maint cerdyn credyd wedi'u hargraffu gyda chodau darllen y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) arnynt a anfonwyd i bob gorsaf gyda thempled llythyr ar gael.
- Rhoddwyd y cyflwyniad halogyddion i griwiau ledled ardal y Gwasanaeth ac, yn ychwanegol at hynny, cafodd ei gynnwys ym mhob cwrs Offer Anadlu gan ddarparu ymwybyddiaeth reolaidd i griwiau gweithredol.
- Cyhoeddwyd nodyn gwybodaeth weithredol (OIN) gyda'r gwerthusiad i'w gynnal yn gynnar yn 2025. Roedd yr OIN yn sicrhau bod y gweithdrefnau gweithredol diweddaraf ar gyfer delio â PPE ac offer halogedig yn cyd-fynd â'r arfer gorau.
- Ystyriwyd a datblygwyd Cofnodi Amlygiad ar sail cyngor gan Ddarparwr Iechyd Galwedigaethol y Gwasanaeth.
- Cyflwynwyd pwnc halogyddion i'r meysydd canlynol: Arolygu HS4, y System Ddysgu Weithredol, Asesiadau Rheoli Digwyddiadau a'r broses Sicrwydd Strategol.
- Cynhaliwyd ymchwil gyda Phrifysgol Abertawe gyda phrosiect i edrych ar unrhyw effeithiau posibl ar systemau imiwnedd diffoddwyr tân.
- Archwiliodd yr adran Ystadau gyfleoedd i gynorthwyo gyda rheoli halogyddion yng nghyfleuster Hyfforddi Earlswood, gan gyflwyno ardal lân, budr, glân.

**Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod**


- Parhau i adolygu sgiliau arbenigol ar draws ardal y Gwasanaeth.
- Cwblhau Proffiliau Risg Ardal ar gyfer Gorsafoedd Tân.
- Defnyddio’r map risgiau a gynhyrchwyd gan ddefnyddio Power BI i nodi 'ardaloedd' risg yn effeithiol a'r unigolion hynny sy'n byw mewn cymunedau sy'n rhan o’r categorïau mwyaf agored i niwed, sy'n byw ar eu pennau eu hunain, yn celcio, neu’n defnyddio cyffuriau ac alcohol, i ganfod yr ymyriadau mwyaf addas yn effeithiol.
- Parhau i gyflwyno'r fenter Ymweliadau Diogelwch Busnes i griwiau gweithredol, er mwyn sicrhau bod criwiau gweithredol yn gallu canfod risgiau diogelwch tân yn eu hardal yn rhagweithiol, gan ddiogelu diffoddwyr tân a'r cyhoedd
- Cyflwyno'r Asesiad Risg newydd i ffurfioli'r holl Asesiadau Risg cyfredol yn asesiadau cyffredinol, i leihau pwysau llwyth gwaith, safoni'r dull gweithredu, a chaniatáu gallu monitro neu ddatblygu rheolaethau ychwanegol yn fwy effeithiol.
- Cynnal adolygiad o'r offer ar beiriannau tân, gyda'r nod o gael rhestr safonol ar waith ac adolygu'r math o offer sy'n cael ei gario ar beiriannau.

- Parhau i fonitro datblygiadau allweddol gyda halogyddion, megis y cynnydd sy'n cael ei wneud yn genedlaethol a chan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC).

### *Sut y cyfrannodd Amcan Tri at y Pum Ffordd o Weithio?*

| ***Tymor hir** - Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.* | ***Atal** - Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.* | ***Integreiddio** -Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.* | **Cydweithredu -** *Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun.* | **Cynnwys -** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn *cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.* |
|---|---|---|---|---|
| Mae adolygu'r risgiau o fewn cymunedau yn helpu i nodi tueddiadau a bygythiadau sy'n dod i'r amlwg er mwyn cynorthwyo i ddatblygu strategaethau hirdymor a buddsoddi mewn galluoedd yn y dyfodol i amddiffyn cymunedau. | Mae deall risg gymunedol yn galluogi datblygu gwasanaethau atal ac amddiffyn. Mae hefyd yn cynorthwyo gyda chefnogi arferion gweithredol mwy diogel a nodi risgiau staff gan alluogi ymyrraeth gynnar. | Mae'n cefnogi cynllunio ar draws sectorau ar gyfer unigolion sy'n agored i niwed neu gymunedau risg uchel. | Mae cydweithredu yn helpu i gael cyd-ddealltwriaeth o risg, sy'n helpu i ddatblygu atebion cydgysylltiedig, a chyfuno arbenigedd, data ac adnoddau, gan leihau unrhyw ddyblygu ymdrech. | Mae cynnwys staff a chymunedau wrth adolygu sgiliau arbenigol a lleoliadau gorsafoedd tân yn sicrhau bod yr holl risgiau yn cael eu nodi a'u deall, gan ganiatáu i randdeiliaid deimlo'n rhan o'r gwasanaethau a ddarperir a chyfrannu at eu siapio. |

## Amcan Gwella a Llesiant Pedwar – Gweithrediadau.




**Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:**

**Cam gweithredu 4.1:** Adolygu ein trefniadau darpariaeth frys yn unol â risgiau cymunedol.

**Cam gweithredu 4.2:** Adolygu'r ffordd yr ydym yn staffio ein gorsafoedd tân.

**Cam gweithredu 4.3:** Gweithredu technegau a thactegau diffodd tân newydd yn unol ag arweinwyr y sector.

**Cam gweithredu 4.4:** Archwilio cyfleoedd i edrych ar anfon allan deinamig o'r Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd.

**Cam gweithredu 4.5:** Gweithredu system newydd anfon allan i ddigwyddiadau brys, gan ddefnyddio technoleg newydd.

**Datganiad cynnydd Amcan Pedwar ar gyfer cyfnod adrodd 2024/2025:**

- Crëwyd Templedi Proffil Risg Gorsaf Enghreifftiol ar gyfer pob system ddyletswydd a'u darparu ar gyfer pob Rhanbarth i'w cwblhau ymhellach.
- Cychwynnodd y Gwasanaeth ar daith ymgysylltu i ddeall mwy am anghenion a barn cymunedau. Bydd trefniadau darpariaeth frys a risgiau cymunedol yn rhan o drafodaethau gyda rhanddeiliaid, a fydd wedyn yn cael eu gwerthuso cyn penderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o weithredu. Bydd canlyniadau'r ymgysylltiad yn cael eu rhannu gydag Operational Research in Health (ORH) a fydd yn adolygu ac yn dilysu data'r Gwasanaeth ymhellach, cyn symud ymlaen ymhellach gyda modelu atebion ymateb.
- Astudiwyd opsiynau i archwilio cryfhau egwyddorion arweiniol a rheoli patrymau shifftiau.
- Cynhaliwyd adolygiad o'r Rota Swyddogion Tactegol (TOR), gan archwilio'r gofynion cymhwysedd a'r elfennau sicrwydd gweithredol, i sicrhau bod staff yn gallu cyflawni'r ddau. Ar ôl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau, bydd yr adran Cynllunio Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) yn meincnodi'n genedlaethol i alluogi'r Gwasanaeth i ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol.

- Cynhaliwyd cynllun prawf, gan wneud Offer Anadlu yn ddewisol i yrwyr Ar Alwad fel rhan o gydbwyso gofynion cymhwysedd Ar Alwad a bodloni anghenion yr orsaf. Cafodd adborth ei gasglu gan y grŵp i ddiweddaru'r cynnig yn ogystal â'i ddosbarthu i aelodau Amcan 2.
- Cyflwynwyd cynnig ffurfiol ym mis Tachwedd i fforwm negodi Undeb y Brigadau Tân (FBU) i ddechrau cyfnod ymgynghori 90 diwrnod ar asesu opsiynau criwio ar gyfer gorsafoedd system ddyletswydd 2-2-4. Mae trafodaethau rhwng Undeb y Brigadau Tân (FBU) a Rheolwyr y Gwasanaeth mewn ymateb i'r opsiynau criwio ar gyfer gorsafoedd 2-2-4 wedi parhau i gael eu cynnal.
- Adolygwyd y model Criw Dydd Hyblyg (FDC) a gwnaed gwelliannau i'r system rhestr ddyletswyddau.
- Sefydlwyd grŵp cerbydau trydan i archwilio technegau a thactegau diffodd tân mewn perthynas â rheoli tanau mewn cerbydau trydan, gan gynnwys treialu blancedi EV mewn 7 gorsaf strategol, ar draws ardal y Gwasanaeth.
- Archwiliwyd technegau a thactegau diffodd tanau gwastraff ar sail Cymru gyfan.
- Gwnaed cynnydd ar yr adolygiad Hyfforddiant a Datblygu, gan sicrhau bod gan y Gwasanaeth raglen Hyfforddi a Datblygu gadarn, addas i'r diben sy'n diwallu anghenion y sectorau Ar Alwad ac Amser Cyflawn, y Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd (JFC) ac aelodau staff y Llyfr Gwyrdd.
- Er mwyn nodi unrhyw wersi a ddysgwyd, rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yn dilyn eu harolygiad.
- Ymwelodd Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru, Dan Stephens, â'r Gwasanaeth i gynnal arolygiad o effeithiolrwydd gweithredol.
- Ar ôl cael yr adroddiad yn sgil arolygiad y Prif Gynghorydd ac Arolygydd, sefydlwyd gweithgor i weithredu'r canlyniadau a'r argymhellion.
- Parhaodd treialon offer ar draws ardal y Gwasanaeth; er enghraifft, mae pibell 22mm a phibell 51mm yn cael eu treialu gan dîm Gorsaf Dân Canol Abertawe a'r tîm Offer Anadlu yn Earlswood. Cynhaliwyd gwerthusiad llawn ar ôl cwblhau'r treialon a'i symud ymlaen trwy'r Bwrdd Diffodd Tanau ar gyfer llywodraethiant gydag opsiynau posibl yn dilyn y canfyddiadau.
- Cynhaliwyd cyfarfod ym mis Ionawr gyda'r Brandweer Academie ar y Model Cwadrant ar gyfer Diffodd Tanau Strwythur, ac mae ei ganlyniadau wedi helpu i lywio mesurau rheoli a thactegau diffodd tanau.
- Ystyriwyd cynnig ar gyfer Cynllun Prawf Anfon Allan Deinamig. Nod y cynllun prawf oedd ceisio archwilio ffyrdd o wella'r system bresennol o anfon allan trwy fabwysiadu dull mwy deinamig, fel yr hyn sydd ar waith ar gyfer ystafelloedd Rheoli'r Heddlu. Datblygwyd mynegiant o ddiddordeb a map ffordd ar gyfer y cynllun prawf cyn ei hysbysebu, gan chwilio am fynegiannau o ddiddordeb gan Swyddogion Tactegol profiadol. Ni fynegwyd unrhyw ddiddordeb, felly mae trefniadau amgen bellach yn cael eu harchwilio.
- Dechreuodd y prosiect anfon allan gyda gweithdai a gynhaliwyd ym mis Hydref, yn trafod a chyfleu disgwyliadau'r grŵp, agweddau cadarnhaol a negyddol y system bresennol, gyda gweithgareddau yn canolbwyntio ar


gynhyrchu atebion posibl i'r problemau a gafwyd o amgylch profiadau defnyddwyr o'r system, a gafodd eu cywain a'u cydgrynhoi mewn taenlen Excel.
- Cynhaliwyd gwaith ar feddalwedd Gwybodaeth am y Farchnad, a chafwyd 8 mynegiant o ddiddordeb, a chyflwyniadau ac arddangosiadau gan 5 cwmni, gan ddarparu trosolwg craff ac addysgiadol o'r ystod o feddalwedd sydd ar gael ar gyfer y sector tân yn ogystal â gwybodaeth werthfawr wrth i'r Gwasanaeth geisio canfod ac archwilio cyfleoedd i wella ei systemau anfon allan deinamig, cynllunio, rota, a rhybuddio.
- Sefydlwyd gweithgorau ar gyfer y prosiect Anfon Allan – Gweithgor meddalwedd a rota anfon allan, gweithgor rhybuddio a gweithgor offer gorsafoedd gyda rhanddeiliaid perthnasol wedi'u nodi, a ddatblygodd ddwy fanyleb yn barod i ddechrau'r broses dendro.
- Cafwyd datganiadau o ddiddordeb gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'w henwi ar y ddogfennaeth dendro ar gyfer caffael y system meddalwedd anfon allan.

**Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod**
- Adolygiad o Egwyddorion Arweiniol y drefn Criw Dydd Hyblyg (FDC).
- Adolygu'r Rota Swyddogion Tactegol (TOR), gan archwilio'r gofynion cymhwysedd a'r elfennau sicrwydd gweithredol, i sicrhau bod staff yn gallu cyflawni'r ddau.
- Parhau i roi canlyniadau ac argymhellion ar waith ar ôl cael adroddiad Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru.
- Parhau i symud ymlaen gyda chyflwyno system anfon allan newydd i ddigwyddiadau brys.

***Sut y cyfrannodd Amcan Pedwar at y Pum Ffordd o Weithio?***

| ***Tymor hir** - Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.* | ***Atal** - Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.* | ***Integreiddio** -Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.* | **Cydweithredu -** *Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun.* | **Cynnwys -** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn *cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.* |
|---|---|---|---|---|
| Mae adolygu'r ffordd y mae'r Gwasanaeth yn ymateb i argyfyngau yn helpu i baratoi ar gyfer risgiau yn y dyfodol, ac yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i fod yn hyblyg a'i fod yn gallu addasu i fodloni gofynion newidiol cymunedau. | Gall adolygu trefniadau darpariaeth frys a'r ffordd y mae gorsafoedd tân yn cael eu staffio helpu i gefnogi ymyriadau cynnar a gall arwain at lai o ddigwyddiadau trwy ddefnydd gwell o ddata atal. | Gall unrhyw newidiadau i'r ffordd y mae'r Gwasanaeth yn ymateb i argyfyngau olygu gweithio gydag asiantaethau partner i sicrhau bod gwasanaethau cydgysylltiedig yn cael eu darparu a lleihau unrhyw ddyblygu ymdrech. | Gall cydweithio ag asiantaethau partner i fynd i'r afael â gofynion newidiol cymunedau arwain at ganlyniadau gwell a chreu perthnasoedd cryf gydag asiantaethau partner. | Mae cynnwys cymunedau yn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y ffordd y mae'r Gwasanaeth yn ymateb i argyfyngau yn adlewyrchu anghenion lleol, gan gynyddu ymddiriedaeth y cyhoedd a chynhwysiant. Mae cynnwys staff a chyrff cynrychioliadol yn helpu i lunio trefniadau diogel, effeithiol y gall staff eu cyflawni yn hyderus. |

## Amcan Gwella a Llesiant Amcan Pump – Atal ac Amddiffyn.




**Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:**

**Cam gweithredu 5.1:** Newid y ffordd rydym yn ymateb i weithrediadau larwm tân awtomatig mewn adeiladau masnachol.

**Cam gweithredu 5.2:** Darparu ymyriadau diogelwch allweddol i blant a phobl ifanc canolbarth a gorllewin Cymru, drwy ddull cydweithredol a thargedol sy'n diwallu anghenion amrywiol y gymuned.

**Cam gweithredu 5.3:** Darparu ymyriadau tanau gwyllt a llosgi bwriadol sy'n darparu gwerth cymunedol go iawn wrth adeiladu ar wybodaeth a phrofiad ein partneriaid wrth ddelio â'u heffeithiau, i wneud ein cymunedau'n fwy diogel.

**Cam gweithredu 5.4:** Archwilio opsiynau i roi newidiadau ar waith i gwrdd â'r gofynion cyfnewidiol a chymhleth o ran diogelwch adeiladau, gorfodi ac addasu er mwyn diwallu anghenion deddfwriaeth bresennol a newydd.

**Cam gweithredu 5.5:** Sicrhau bod ein hymyriadau diogelwch tân yn y cartref yn seiliedig ar bobl a'r risgiau sy'n eu hwynebu, i ddarparu gwerth economaidd a chymdeithasol.

**Cam gweithredu 5.6:** Sicrhau bod ein trefniadau amddiffyn yn bodloni'r risgiau presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg.

**Cam gweithredu 5.7:** Darparu gweithgareddau ymyrraeth diogelwch lleol a rhanbarthol i sicrhau bod y rhai sydd â dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth diogelwch tân yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

**Datganiad cynnydd Amcan Pump ar gyfer cyfnod adrodd 2024/2025:**

- Gweithredwyd y dull newydd o ymateb i alwadau Larymau Tân Awtomatig (AFA) ar 01 Gorffennaf 2024, gan leihau'r achosion o fynd allan i alwadau larymau mewn adeiladau annomestig.

- Datblygwyd Dogfen Arweiniad Gweithdrefnol (PGD) ar gyfer ymateb i Larymau Tân Awtomatig gan yr adran Diogelwch Tân Busnes a darparwyd sesiynau hyfforddi.
- Gwnaed gwaith ymgysylltu mewn perthynas ag adeiladau lle ceir ymholiadau ac achosion o larymau'n cael eu gweithredu'n barhaus.
- Ers ei gyflwyno, bu gostyngiad o tua 84% yn nifer yr achosion o fynd allan i ymateb i larymau awtomatig mewn adeiladau annomestig, sy'n cyfateb i 95 o alwadau y mis.
- Amcangyfrifir bod yr arbediad cost net yn £86,270 ers cyflwyno'r polisi hyd at 31 Mawrth 2025.
- Darparwyd hyfforddiant i aelodau staff, wedi'i alinio â'r Fframwaith Cymhwysedd Cenedlaethol a hyd at Ddiploma Lefel 5 Dylunio Peirianneg Tân (Technegydd) i fodloni gofynion atebion peirianneg tân mewn adeiladau. Defnyddiwyd y sgiliau yn rheolaidd, i gefnogi ymgyngoriadau cymhleth, er enghraifft, cyfleuster Storio Ynni Batri 350 Mega Wat ym Mhenfro.
- Ymgysylltu â Llywodraeth Cymru drwy fynd i gyfarfodydd misol gyda'r tîm Datblygu Polisi i gynorthwyo gyda datblygu'r rhaglen diwygio deddfwriaeth diogelwch adeiladau.
- Mae Rhaglen ddiwygiedig Arolygu ar sail Risg (RBIP) wedi'i chyflwyno sy'n sicrhau bod cyswllt â'r adeiladau masnachol sy'n peri'r risg fwyaf o fewn y Gwasanaeth o safbwynt gorfodi.
- Cafodd y Gwasanaeth 97 o adroddiadau cynhwysfawr arolwg diogelwch tân Math 4 ar gyfer adeiladau preswyl amlfeddiant yn ardal y Gwasanaeth yn amrywio o 11m + o ran uchder. Datblygwyd cynlluniau gweithredu i sicrhau bod Personau Cyfrifol yr adeiladau hyn wedi cymryd camau priodol i liniaru'r risgiau a nodwyd a byddant yn blaenoriaethu archwiliadau desg o Asesiadau Risg Tân diwygiedig yn y lle cyntaf.
- Datblygwyd y defnydd o 'Rybuddion Syml' fel adnodd sancsiynau gorfodi – isafswm lefel o sancsiwn gorfodi lle mae lefel y troseddu yn isel ac mae'r person cyfrifol yn derbyn cyfrifoldeb am ddiffyg diogelwch tân, sy'n cael ei roi ar gofnod am gyfnod o 3 blynedd.
- Ymgymerwyd â threfniadau gwaith cydweithredol gyda'r Tîm Arolygu ar y Cyd (JIT) ar ddatblygu'r Rhaglen Arolygu ar sail Risg i gwrdd â'r risgiau presennol a risgiau newydd, a oedd yn cynnwys cyfres o sesiynau hyfforddi yn cael eu cyflwyno i orsafoedd.
- Parhawyd i ddarparu hyfforddiant Diogelwch Tân i BOB criw gweithredol. Mae'r hyfforddiant yn helpu i sicrhau bod cydweithwyr gweithredol yn ymwybodol o sut y gall mesurau diogelwch tân gweithredol a goddefol sicrhau bod diffoddwyr tân mor ddiogel â phosibl a chynorthwyo â chynllunio tactegol.
- Cwblhaodd aelodau tîm o'r adran Diogelwch Tân Busnes (BFS) **1,452** o ddarnau o waith ymgynghorol mewn perthynas â'r amgylchedd adeiledig yn ystod y flwyddyn ariannol. Roedd y rhain yn cynnwys y ddyletswydd gynllunio gymharol newydd ar gyfer rhai datblygiadau tai a masnachol, ymgyngoriadau Rheoliadau Adeiladu traddodiadol, ymgynghoriad adolygu strategaeth dân a

pheirianneg tân, arfarniadau arolygon ymwthiol o adeiladau preswyl uchel yn ogystal ag ymatebion ymgynghori i Ddatblygiadau arfaethedig o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS).

- Datblygwyd rhaglen ddarparu sy'n galluogi personél gweithredol i fynd i adeiladau masnachol i ymgymryd ag ymweliadau diogelwch tân syml, i gynyddu ymwybyddiaeth a diogelwch diffoddwyr tân, ac mae'n cael ei threialu ar draws y Gwasanaeth.
- Cyfarfu'r pennaeth Diogelwch Tân Busnes â Phrif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru i drafod dadansoddi data a chasglu gwybodaeth Ymchwiliadau Tân, megis Ymchwilwyr Tân yn archwilio datblygiad tân a phatrymau tân ar ôl y digwyddiad
- Cynhaliwyd 1231 o Archwiliadau wedi'u Cynllunio ar gyfer y cyfnod adrodd. Cwblhawyd 659 o ymgyngoriadau rheoliadau adeiladu gan yr adran Diogelwch Tân Busnes. 22 o Hysbysiadau Gwahardd, 34 o Hysbysiadau Gorfodi ac 1 Hysbysiad Addasu ar gyfer y cyfnod adrodd. Mae'r adran hefyd wedi cynnal 27 achos o Dynnu Hysbysiad Gorfodi yn Ôl ac mae 3 safle ar hyn o bryd gyda chynghorydd cyfreithiol y Gwasanaeth i'w hystyried ar gyfer symud ymlaen i erlyniad. Cofnodwyd 408 o weithgareddau ymgysylltu â busnes ar draws ardal y Gwasanaeth yn amrywio o fusnesau bach i fusnesau mawr.
- Ymgysylltwyd â tua 58,000 o blant a phobl ifanc a chawsant gyngor diogelwch trwy'r rhaglen addysg ysgolion a gweithgareddau ymgysylltu ag ieuenctid.
- Cyflwynwyd sesiynau Crime Time ar gyfer dysgwyr Blwyddyn Wyth, mewn cydweithrediad â Swyddogion Heddlu School Beat, y Gwasanaeth Ieuenctid, y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid ac Ynadon. Mae Crime Time yn cael ei gyflwyno'n flynyddol ar draws ysgolion uwchradd yn Sir Benfro ac mae'n un o gonglfeini gwaith atal troseddu gyda phobl ifanc.
- Cyflwynwyd sesiynau Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Ngorsaf Dân Hwlffordd i deuluoedd sy'n addysgu eu plant gartref.
- Cymerodd Swyddogion Addysg Rhanbarth y Gorllewin ran mewn digwyddiad aml-asiantaeth ym Mharc y Scarlets ar 19 Mawrth, gan weithio gyda Heddlu Dyfed-Powys a Rygbi'r Scarlets, i ddarparu sesiynau ar ddiogelwch tân, diogelwch ar y rhyngrwyd a sgiliau rygbi i ddisgyblion ysgolion cynradd lleol.
- Yn ystod mis Chwefror 2025, cafodd 366 o bobl ifanc 18-24 oed gyflwyniad diogelwch ffyrdd Dominos trwy ymyriadau mewn colegau a gweithleoedd.
- Roedd Ymgyrch Ugain yn llwyddiant ysgubol, ac yn ogystal ag addysgu cannoedd o yrwyr dros y mis diwethaf cafwyd adborth gan Heddlu Dyfed-Powys yn hysbysu'r Gwasanaeth bod un person a gafodd ei stopio fel rhan o'r ymgyrch bellach wedi cael gwaharddiad 3 blynedd am yrru o dan ddylanwad cyffuriau.
- Cofrestrwyd 158 o fyfyrwyr ar Gyrsiau Ffenics, sef ymyriadau ymgysylltu â phobl ifanc sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo diogelwch, datblygiad personol a chyflogadwyedd, gyda 145 yn cael achrediad Agored Cymru.
- Cynhaliwyd digwyddiad Criw Craidd yn Sir Benfro, gan gyrraedd dros 1,000 o blant oedran ysgol gynradd gyda chyngor diogelwch tân hanfodol.
- Dyfarnwyd y Wobr Plant a Phobl Ifanc i weithgor Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan y Gwasanaeth Tân ac Achub, dyfarnwyd gwobr Donna Crossman i'r Ymarferydd Ieuenctid Lester James, a chafodd Wayne Bream Dystysgrif er

anrhydedd i'w waith fel Gwirfoddolwr Cadetiaid Tân yng Ngwobrau Atal Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC).

- Cafwyd cyflwyniad diogelwch ar y ffyrdd aml-asiantaeth yn Ysgolion Uwchradd Powys Rhanbarth y Gogledd, ac roedd yr adborth a gafwyd yn tynnu sylw at y datblygiad parhaus o ran gwerthuso mentrau a phecynnau cyflwyno Diogelwch ar y Ffyrdd.
- Dangosodd tystiolaeth adroddiadau o adran Personau Agored i Niwed y System Wybodaeth Rheoli Risg Tân Cymunedol (CFRMIS) ddull cyfannol o ddiogelu ein cymunedau, gyda chymorth gan asiantaethau partner, megis yr Heddlu, Criwiau Gorsafoedd ac atgyfeiriadau Asiantaethau i gynnal gwaith i wella diogelwch adeiladau targed yng nghyswllt Tanau Bwriadol, a Cham-drin Domestig, Gosod Tanau, Celcio a Llithro, Baglu a Chwympo.
- Yn ystod cyfnod yr haf, cefnogodd Swyddogion Addysg nifer o ddigwyddiadau ar draws ardal y Gwasanaeth, gan gynnwys Chwarae yn y Parc, Bwyd a Hwyl a Rhaglenni Gwella Gwyliau'r Haf (SHEP).
- Bu’r tîm Diogelwch ar y Ffyrdd yn bresennol mewn digwyddiadau gan gynnwys: Sioe beiciau modur Llandysul, Sioe Frenhinol Cymru, Cruise ar Faes Sioe Caerfyrddin a Rali Ceredigion.
- Cyflwynwyd sawl Ymyriad Tanau Bwriadol ar draws ardal y Gwasanaeth, gan gynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau lleol i rannu negeseuon allweddol.
- Cynhaliodd y Tîm Lleihau Tanau Bwriadol a Heddlu Dyfed-Powys ymweliad â safle yn Aberdaugleddau sydd â nifer o adeiladau adfeiliedig mawr.
- Parhaodd y gwaith mewn partneriaeth â'r Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol a Bwrdd Tanau Gwyllt Cymru. Cynhaliwyd gwaith hefyd rhwng y Gwasanaeth a'r Parciau Cenedlaethol gyda gwaith rheoli toriadau tân yn cael ei gynnal ar gyfer safleoedd allweddol.
- Aeth personél y Gwasanaeth i’r Gynhadledd Tanau Gwyllt a gynhaliwyd yn Aberdeen, a ddarparodd gyfle amhrisiadwy i archwilio heriau, strategaethau ac arloesiadau sy’n esblygu ym maes rheoli tanau gwyllt. Mae'r wybodaeth a gafwyd yn uniongyrchol berthnasol i'r Gwasanaeth, yn enwedig ac ystyried y duedd gynyddol o danau gwyllt yn y rhanbarth oherwydd newid yn yr hinsawdd, arferion defnydd tir, a ffactorau cymdeithasol-amgylcheddol. Roedd meysydd dysgu allweddol y gynhadledd yn cynnwys - Y Cysylltiad rhwng Hinsawdd a Thanau Gwyllt, Dulliau sy’n canolbwyntio ar y Gymuned, Technolegau Arloesol, Rheoli Tir Integredig a Hyfforddiant a Pharodrwydd.
- Mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru a Chyngor Abertawe, agorodd aelodau o Dîm Diogelwch Cymunedol y De siop dros dro yng Nghanolfan Siopa'r Cwadrant yn Abertawe, i ddarparu negeseuon diogelwch tymhorol, gweithgareddau diogelwch yn y cartref a phrofion blancedi trydan i aelodau'r cyhoedd.
- Gwnaed gwaith tymhorol i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo arferion gorau cyn i'r 'tymor glaswellt' o dorri toriadau tân a llosgi dan reolaeth gael ei gynnal, yn cynnwys defnyddio newid ymddygiad i dargedu'r cenedlaethau iau o weithwyr gwledig i adfer arferion gwaith sy'n fwy diogel i holl ddefnyddwyr cefn gwlad ac i'r amgylchedd.  Daeth y gwaith hwn â manteision sylweddol i reoli tanau gwyllt ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

**Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.**
**Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.**
Please consider the environment before printing.
Don’t print if it’s not necessary.

- Cyfanswm nifer yr archwiliadau Gwiriad Diogelwch yn y Cartref (HSC) a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd oedd 10,668 (4,479 ohonynt yn staff Diogelwch Cymunedol, 5,143 gan Orsafoedd a 776 wedi'u cwblhau gan sefydliadau partner).


**Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod**

- Darparu gwerthusiad cynhwysfawr o effaith y newid polisi ynghylch peidio â mynd allan i adeiladau masnachol a gweithredu'r canfyddiadau.
- Canolbwyntio ymyriadau diogelwch plant a phobl ifanc ar y rhai mwyaf agored i niwed.
- Symud ymlaen gydag arferion rheoli tanau gwyllt ac ymgysylltiadau cymunedol i leihau effeithiau tanau gwyllt ar ein cymunedau.
- Sicrhau bod y Rhaglen Arolygu ar sail Risg (RBIP) yn cael ei chyflwyno yn unol â'r adnoddau sydd ar gael a bod deddfwriaeth newydd, fel Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru), yn cael ei hystyried wrth gynllunio gwaith yn y dyfodol.
- Gweithredu argymhellion archwiliad 'Atal tân risg uchel wedi'i dargedu' Archwilio Cymru a chynyddu'r gwaith o ddarparu gwiriadau diogelwch yn y cartref ar draws cymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.
- Cefnogi'r gymuned fusnes ynglŷn â diogelwch tân a sicrhau ar yr un pryd bod y gorfodi yn diogelu'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf

***Sut y cyfrannodd Amcan Pump at y Pum Ffordd o Weithio***

| ***Tymor hir -*** *Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.* | ***Atal -*** *Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.* | ***Integreiddio*** *-Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.* | **Cydweithredu -** *Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun.* | **Cynnwys -** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn *cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.* |
|---|---|---|---|---|
| Mae adolygu trefniadau atal ac amddiffyn yn helpu i gynllunio ar gyfer newidiadau hirdymor mewn risg gymunedol. Bydd darparu ystod o drefniadau atal ac amddiffyn ar y cyd â'n partneriaid yn creu cysylltiadau yn y gymuned sy'n gynaliadwy, gan gael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl o ran cynyddu ymwybyddiaeth o'r risgiau yn sgil tanau mewn cartrefi, busnesau ac yn yr amgylchedd cymunedol ehangach, gan greu cymuned sy'n fwy gwydn ac sy'n llai dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus. | Gall gwella diogelwch preswylwyr a busnesau drwy ymwybyddiaeth, addysg ac ymyriadau yn ogystal â nodi cyfleoedd i leihau nifer y digwyddiadau a lleihau troseddu leihau'r risg o niwed a dod â buddion economaidd i boblogaeth wardiau, ardaloedd preswyl, cymunedau, busnesau a thu hwnt. | Bydd deall cymunedau a dylanwadu'n gadarnhaol ar eu diogelwch a'u lles ochr yn ochr â phartneriaid yn cyfrannu tuag at amgylchedd cadarnhaol i bawb. | Bydd gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac asiantaethau partner yn galluogi'r Gwasanaeth i gyrraedd a chysylltu â phob rhan o gymunedau, gan gael gwared ar ffiniau i ardaloedd llai difreintiedig a dad-stigmateiddio enw drwg a record wael mewn perthynas â statws economaidd-gymdeithasol. | Mae ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid yn helpu i lunio strategaethau atal priodol, wedi'u targedu, gan sicrhau bod yr ymyriadau'n effeithiol. |

## Amcan Gwella a Llesiant Chwech – Ymgysylltu.




**Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:**

**Cam gweithredu 6.1:** Gwella ein dealltwriaeth o ddisgwyliadau ein cymunedau drwy ymgynghori ac ymgysylltu.

**Cam gweithredu 6.2:** Nodi a gweithredu dulliau newydd o ymgysylltu â staff a chymunedau

**Cam gweithredu 6.3:** Dylunio, datblygu a gweithredu strategaethau ymgyrchu ac ymgysylltu newydd ac arloesol.

**Cam gweithredu 6.4:** Ymgysylltu â'r undebau llafur yn unol â dyletswyddau Partneriaeth Gymdeithasol ynghylch newid sefydliadol.

**Datganiad cynnydd Amcan Chwech ar gyfer cyfnod adrodd 2024/2025:**

- Hyrwyddwyd yr ymgysylltu gan ddefnyddio'r arolwg dweud eich dweud, gydag aelodau o'r cyhoedd a staff, mewn diwrnodau agored gorsafoedd, digwyddiadau golchi ceir, Sioe Frenhinol Cymru, y Ffair Aeaf a Sioe Sir Benfro.
- Dangosodd y data mai'r ateb mwyaf cyffredin oedd 'o fewn 10 munud'. Yn ogystal, mynegodd 93.9% o'r ymatebwyr hyder yn y gwasanaethau a ddarperir.
- Mewn cydweithrediad â'r adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes (CCBD), datblygwyd cynllun marchnata a chyfathrebu ac roedd yn cynnwys ystod o fentrau i helpu i hyrwyddo'r arolwg ac i siapio'r gwasanaethau a ddarperir ac, ar ben hynny, darparu gwybodaeth am broffil y cymunedau yr ymgysylltwyd â nhw.
- Parhawyd i gynnal sesiynau ymgysylltu â chyflenwyr ynghylch gofynion tendro'r Gwasanaeth gan helpu i chwalu unrhyw rwystrau.
- Cynhaliwyd gweithdy mapio rhanddeiliaid gydag Ymgynghorydd Ymgynghori ym mis Rhagfyr 2024 i archwilio'r ffyrdd y mae rhanddeiliaid yn cael eu canfod.

- Datblygwyd y weithdrefn Deisebau ar gyfer yr holl ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori a bydd yn cael ei rhannu drwy'r sianeli llywodraethiant perthnasol maes o law.
- Parhaodd y dysgu gan sefydliadau eraill y Sector Cyhoeddus gyda chyfarfodydd wedi'u cynnal i nodi'r gwersi a ddysgwyd a'r arfer gorau, gyda Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
- Mae gwaith nodi'r arfer gorau mewn perthynas â strategaethau ymgysylltu yn y sector Gwasanaeth Tân ac Achub yn parhau i gael ei archwilio, gyda'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn dilyn eu hymgynghoriad ar eu hadolygiad o'r ddarpariaeth frys.
- Caffaelwyd gwasanaethau arbenigwr ymgynghori, gyda dull ymgysylltu 5 cam yn cael ei argymell. Cytunwyd arno a chafodd ei gefnogi gan yr Awdurdod Tân a'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a bydd yn cael ei gynnal dros gyfnod o 12-18 mis.
- Er mwyn helpu'r Gwasanaeth i ddeall mwy am anghenion a barn cymunedau lleol, cynhaliwyd 34 o ddigwyddiadau galw heibio i ymgysylltu â'r gymuned ar draws ardal y Gwasanaeth, yn ogystal â gweminarau a chyfarfodydd ar-lein gydag Aelodau'r Senedd a Chynghorwyr Tref a Chymuned rhwng Ionawr a Mawrth.
- Fel rhan o sesiynau ymgysylltu diweddar 'addasu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru... gyda'n gilydd', defnyddiwyd amrywiaeth o wahanol ddulliau ymgysylltu a ffyrdd o hyrwyddo'r digwyddiadau. Roeddent yn cynnwys:

- Erthygl a gyhoeddwyd yn Wales Online a North Wales Live.
- Sgriniau hyrwyddo digidol yng Nghanolfan Siopa St Elli yn Llanelli, gorsaf fysiau Abertawe a gorsafoedd trên Abertawe a Phort Talbot.
- Defnyddiwyd hysbysebu gan ddefnyddio paneli mewnol bysiau ar draws Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro, ynghyd â 'hybiau stryd' yng nghanol dinas Abertawe a hysbysebu digidol mewn gorsafoedd petrol ledled Ceredigion a Phowys i hyrwyddo'r sesiynau galw heibio.
- Hyrwyddwyd hysbysebu print hanner tudalen a digido yn y South Wales Guardian, Tivyside Advertiser, Powys County Times, South Wales Guardian a'r Western Telegraph.

- Lansiwyd 3 fideo Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) 2040, pob un ohonynt yn canolbwyntio ar agweddau allweddol ar y CRhRC, gan ddefnyddio iaith syml i sicrhau'r ymgysylltiad mwyaf gan y gynulleidfa ac er mwyn gallu eu defnyddio mor helaeth â phosibl ar draws sawl sianel gyfathrebu.
- Cafwyd cyfanswm o **720** o ymatebion i'r arolwg gan randdeiliaid yn rhoi eu barn a'u disgwyliadau o'r Gwasanaeth a'r heriau yr oeddent yn credu y gallai fod yn rhaid eu wynebu wrth gyflawni Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040.
- Ar ôl cwblhau'r sesiynau galw heibio, datblygwyd papur materion a oedd yn cynnwys materion a heriau hysbys y Gwasanaeth ynghyd â'r wybodaeth a gasglwyd gan randdeiliaid ac fe'i cyflwynwyd i'r Awdurdod Tân ym mis Mawrth.

- Wedi cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Tân, datblygwyd dogfen gwmpasu, cyn ymgymryd â chyfres o ystafelloedd cytbwys, sef fforymau lle mae rhanddeiliaid amrywiol a chanddynt safbwyntiau, diddordebau a phwerau amrywiol yn cael eu cynrychioli'n gyfartal ac yn gallu cymryd rhan yn ystyrlon. Nod ystafell gytbwys yw meithrin deialog agored a sicrhau bod pob safbwynt perthnasol yn cael ei ystyried. Bydd y gwaith hwn yn parhau drwy gydol cyfnod adrodd 2025/2026.
- Ar ôl cwblhau'r sesiynau galw heibio ymgysylltu â'r gymuned, cynhaliwyd gwerthusiad ar ôl yr ymgysylltu i ganfod beth wnaeth weithio'n dda, beth na wnaeth weithio'n dda a beth y gellir ei wella ar gyfer digwyddiadau ymgysylltu yn y dyfodol. Gwneir hyn trwy geisio adborth gan yr holl randdeiliaid a gymerodd ran, gyda'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu cofnodi a newidiadau'n cael eu gwneud. Bydd y dull hwn yn caniatáu i'r Gwasanaeth barhau i adeiladu ar yr ymgysylltu â chymunedau, sicrhau cymaint o gyfranogiad â phosibl a chynyddu cyfraddau ymateb.
- Bu'r Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad hefyd yn bresennol yn rheolaidd yn Rhwydwaith Ymgysylltu a Mewnwelediad Powys, gan rannu meysydd dysgu allweddol ac arfer gorau o ran dulliau o ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd. Maent hefyd yn aelod o'r grŵp Swyddogion Ymgynghori, Ymchwil a Gwerthuso (CREO), grŵp ar-lein anffurfiol, gyda chynrychiolwyr o bob rhan o sector Gwasanaethau Tân ac Achub y DU, sy'n cyfarfod bob 4-6 mis i rannu arferion gorau.
- Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar Amcanion CRhRC 2040 ac annog ymwybyddiaeth a chyfranogiad ehangach, anogwyd staff i ymuno â chyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Cyflawni Rheoli Risg Cymunedol (CRMDB), er mwyn eu galluogi i glywed y diweddariadau cynnydd gan bob un o'r Arweinwyr Amcanion drostynt hwy eu hunain.
- Rhannwyd dogfennaeth cyfarfodydd y Bwrdd Cyflawni Rheoli Risg Cymunedol, sleidiau cyflwyniadau a Chynlluniau Gweithredu Amcanion gyda chriwiau o Orsaf Dân Sgeti i gael eu hadborth gwerthfawr ar y dogfennau, a chafwyd adborth cadarnhaol.
- Gan adeiladu ar lwyddiant ail ddigwyddiad ymgysylltu busnes 'Connect For' Rhanbarth y Gogledd, gwnaed trefniadau i gynnal digwyddiadau tebyg yn Rhanbarthau'r Gorllewin a'r De.
- Cwblhawyd y gwaith o gyflwyno adnodd ar-lein Safelincs. Mae'r system yn caniatáu i aelodau llai agored i niwed o'r gymuned ddefnyddio'r adnodd gwirio diogelwch yn y cartref ar-lein i ganfod risgiau tân yn y cartref, dysgu sut i leihau'r risgiau, creu cynllun diogelwch yn y cartref a threfnu ymweliad diogelwch yn y cartref. Mae cyflwyno'r adnodd ar-lein yn galluogi'r Gwasanaeth i ganolbwyntio ei ymweliadau diogelwch yn y cartref ar aelodau mwyaf agored i niwed y gymuned.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

- Parhawyd i drafod dulliau o ymgysylltu â staff, a chanfuwyd bod diweddariadau misol byr, tudalen o hyd, mewn iaith eglur, wedi cael eu croesawu ar gyfer gwaith Amcan 2, sef y Prosiect Gwella ar Alwad (OCIP) gynt gyda phersonél Ar Alwad.
- Cafwyd adborth gan gynrychiolydd o Gyngor Sir Powys am y ffyrdd llwyddiannus yr oeddent wedi bod yn ymgysylltu â staff yn fewnol, megis sesiynau chwarterol gyda'r Prif Weithredwr, a oedd yn agored i'r sefydliad cyfan er mwyn rhoi cyfle i staff ofyn cwestiynau. Blog chwarterol y Prif Weithredwr, a gafodd dderbyniad da, ac arolwg staff blynyddol.
- Cynhaliodd Gorsaf Dân y Drenewydd ddigwyddiad recriwtio 'At Eich Gwasanaeth'. Roedd y digwyddiad wedi'i anelu at bobl o bob cefndir, ac yn rhoi cyfle i ymweld â'r Orsaf Dân ac edrych ar gyfleoedd gyrfa o fewn gwasanaethau brys a lluoedd arfog amrywiol. Roedd cynrychiolwyr o GTACGC, Heddlu Dyfed-Powys, y Llynges Frenhinol, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, y Fyddin Brydeinig a Gyrfa Cymru wrth law i roi cyngor, rhannu eu profiadau ac ateb unrhyw gwestiynau am yrfaoedd o fewn eu sefydliadau. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys arddangosiadau o gŵn chwilio a drôn Heddlu Dyfed-Powys, gan roi enghraifft ymarferol o'r gwahanol swyddi sydd ar gael o fewn y gwasanaethau brys.
- Fel rhan o is-grŵp Cymunedau Cryf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, cynhaliodd y Prif Swyddog Tân weithdy 'targedu gwaith atal' yn Stadiwm Swansea.com. Yn y digwyddiad aml-asiantaeth hwn daethpwyd ag ystod amrywiol o sefydliadau at ei gilydd i rannu syniadau, hyrwyddo arfer gorau a chanfod ffyrdd newydd o gydweithio i wneud y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yn fwy diogel.
- Bu adran Caffael a Chontractio'r Gwasanaeth yn bresennol mewn nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â chyflenwyr, megis digwyddiad menter gymdeithasol a drefnwyd gan Cwmpas a digwyddiad Busnesau Bach a Chanolig a drefnwyd gan Gyngor Sir Gâr.
- Bu cynrychiolwyr o'r adrannau Caffael a Chontractio ac Adnoddau Dynol yn bresennol mewn is-grŵp gorchwyl a gorffen, fel rhan o nod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion i ddatblygu Polisi Gwaith Teg, trefniadau arfer da, ar gyfer sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn sir Ceredigion. Cafodd ffyrdd posibl o wneud gwelliannau cyflym eu nodi a'u trafod ynghyd â heriau a bylchau yr oedd angen i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fynd i'r afael â nhw ar y cyd.
- Cynhaliodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol gyfres o gymorthfeydd yng Ngorsafoedd Tân Llanelli, Port Talbot a Threforys i drafod y newidiadau shifft arfaethedig 2-2-4.
- Sefydlwyd rhwydwaith o Lysgenhadon Cymunedol, a chynhaliwyd cyfarfod rhagarweiniol ym mis Ionawr 2025. Roedd y Llysgenhadon yn cynnwys cynrychiolwyr ag ystod eang o wahanol brofiadau o bob rhan o ardal

Canolbarth a Gorllewin Cymru, a byddant yn chwarae rhan ganolog wrth helpu i lunio'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu ac yn cynorthwyo i greu amgylchedd cadarnhaol a chefnogol o fewn cymunedau. Byddant hefyd yn gweithredu fel cyswllt rhwng y Gwasanaeth ac aelodau'r gymuned, gan helpu i gyfathrebu gwybodaeth bwysig, hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol, a chynrychioli barn cymunedau lleol.

- Fe wnaeth y tîm Diogelwch Tân Busnes dreialu cyfarfodydd "Tîm Cyfan" misol i wella'r modd y mae gwybodaeth sefydliadol yn cael ei rhaeadru o fewn yr adran. Roedd hyn yn cynnwys rhannu diweddariadau a gwybodaeth gan Bennaeth a Dirprwy Bennaeth yr adran wedi iddynt fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Gwasanaeth.
- Parhaodd yr adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes (CCBD) i archwilio cyfleoedd i ddylunio, datblygu a chyflwyno strategaethau ymgyrchu ac ymgysylltu newydd ac arloesol, fel Ymgyrch Nadolig #SafetyActually y Gwasanaeth, a ysbrydolwyd gan Love Actually, ac a ddaeth â thinc Nadoligaidd i'r ymwybyddiaeth o dân a diogelwch trwy rannu negeseuon diogelwch ac awgrymiadau doeth, a sicrhau Nadolig diogel a hapus i bawb.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd chwarterol Grŵp Llywio Ymgyrchoedd y Gwasanaeth gydag ystod eang o randdeiliaid mewnol, i ddylunio a datblygu strategaethau ymgyrchu ac ymgysylltu newydd ac arloesol, gan gynnwys yr ymgyrchoedd Cofrestru Fy Offer a Recriwtio Amser Cyflawn.
- Darparwyd cyflwyniadau yn dilyn gwerthusiad o ymgyrchoedd blaenorol, gan gofnodi'r gwersi a ddysgwyd a chaniatáu trafodaeth ehangach, a helpu'r grŵp i ganfod ffyrdd newydd ac arloesol o ymgysylltu â rhanddeiliaid i fanteisio i'r eithaf ar ganlyniadau strategaethau ymgysylltu a sicrhau bod y negeseuon allweddol yn cael eu cyfathrebu a'u deall.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd yn rheolaidd gydag Undebau Llafur a rheolwyr, gan gynnwys cyfarfodydd y Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd (JCF). Bu cynrychiolwyr Undebau Llafur hefyd yn bresennol mewn cyfarfodydd Monitro Perfformiad Amcanion, y Bwrdd Cyflawni Rheoli Risg Cymunedol, y Gweithgor Diwylliant a Chynhwysiant a chyfarfodydd y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles.
- Cafodd diweddariadau cynnydd Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040 eu cynnwys fel eitem agenda sefydlog ar gyfer y cyfarfodydd a gynhelir rhwng y Rheolwyr ac Undeb y Brigadau Tân (FBU), Cymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub (FRSA), Unsain a'r GMB.
- Dosbarthwyd papur asesu opsiynau criwio i bersonél y Gwasanaeth ac mae trafodaethau wedi dechrau gyda'r Undebau Llafur.
- Drafftiwyd adroddiad Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol, yn dangos sut mae'r Gwasanaeth wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd (JCF) ddydd Llun, 10 Chwefror a'i gylchredeg i Undebau Llafur iddynt hwy ei ystyried a'i gymeradwyo. Cyflwynwyd yr adroddiad Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol i'r Awdurdod Tân ar 24 Mawrth iddynt hwy ei ystyried, cyn iddo gael ei gylchredeg i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ar 26 Mawrth 2025.
-

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

## Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod

- Gan ddefnyddio'r adborth a gafwyd o'r sesiynau galw heibio ymgysylltu â'r gymuned, nodi a chytuno ar raglen o bynciau 'ystafell gytbwys', gan gynnwys darpariaeth tanau gwyllt.
- Mewn cydweithrediad â Llysgenhadon Cymunedol, archwilio a chanfod dulliau newydd o ymgysylltu â staff a'r gymuned.
- Ymgorffori'r alinio â phob undeb llafur yn unol â dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol o safbwynt newid sefydliadol.
- Adolygu a gweithredu newidiadau a gafwyd o'r gwersi a ddysgwyd a gweithredu ar y canfyddiadau ar gyfer dulliau o ymgysylltu â staff a'r gymuned.

## *Sut y cyfrannodd Amcan Pump at y Pum Ffordd o Weithio?*

| ***Tymor hir -*** *Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.* | ***Atal -*** *Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.* | ***Integreiddio*** *-Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.* | **Cydweithredu -** *Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun.* | **Cynnwys -** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn *cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.* |
|---|---|---|---|---|
| Mae cymunedau canolbarth a gorllewin Cymru wrth wraidd popeth y mae'r Gwasanaeth yn ei wneud, ac felly mae cynllunio ar gyfer y tymor hwy yn hynod o bwysig.<br><br>Mae ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau i ddeall eu disgwyliadau yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn canolbwyntio ar bobl ac yn gynhwysol.<br><br>Mae hefyd yn helpu i nodi heriau a materion, yn ogystal â risgiau a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg, sy'n cynorthwyo gyda threfniadau cynllunio tymor hwy. | Mae ymgysylltu ac ymgynghori parhaus yn helpu i annog cyfranogiad y cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a ddarperir i gymunedau.<br><br>Ar ben hynny, cynorthwyodd i nodi risgiau a gwendidau. | Trwy wella'r ddealltwriaeth o ddisgwyliadau cymunedau trwy ymgynghori ac ymgysylltu, amlygwyd y mannau hynny lle gallai'r Gwasanaeth gyd-fynd yn well â sefydliadau partner. | Defnyddiwyd dull cydweithredol, ac roedd hyn o gymorth i nodi arfer gorau a gwersi a ddysgwyd gan sefydliadau partner, i helpu i lunio dulliau newydd o ymgysylltu â staff a'r gymuned. | Cydnabyddir bod ymgysylltu ac ymgynghori yn unol ag arferion gorau yn arwain at ganlyniadau gwell, gan ganiatáu i brofiadau pobl eraill gael eu clywed, a rhoi gwybodaeth werthfawr a all gefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol.<br><br>Mae gwrando ar farn yr holl randdeiliaid yn hynod bwysig i helpu i lunio'r gwasanaethau a ddarperir i gymunedau a thrwy ddeall eu disgwyliadau. |

# Amcan Gwella a Llesiant Saith – Yr Amgylchedd.






**Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:**

**Cam gweithredu 7.1:** Gweithio tuag at gyrraedd targedau Sero Net 2030 yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

**Cam gweithredu 7.2:** Cynhyrchu Map Ffordd Sero Net ar gyfer 2030.

**Cam gweithredu 7.3:** Nodi a gwerthuso effeithiolrwydd tanwydd amgen ar gyfer ein cerbydau.

**Cam gweithredu 7.4:** Ymgorffori a gwerthuso manteision yr Uned Hyfforddiant Ymddygiad Tanau Adrannol newydd.

**Cam gweithredu 7.5:** Adfywio ein hystad i sicrhau bod ein gweithleoedd yn gynaliadwy yn amgylcheddol.

**Cam gweithredu 7.6:** Paratoi, rheoli a gwerthuso ein gweithdrefnau sefydliadol er mwyn deall eu heffaith amgylcheddol.

**Cam gweithredu 7.7:** Nodi technegau a chyfarpar gweithredol newydd i liniaru effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd.

**Cam gweithredu 7.8:** Gweithio gyda'n cyflenwyr a'n defnyddwyr i wneud ein cadwyn gyflenwi yn gyfeillgar i'r amgylchedd.

**Datganiad cynnydd Amcan Saith ar gyfer cyfnod adrodd 2024/2025:**

- Daliwyd ati i ddiweddaru taenlen adrodd Carbon Sero Net sy'n cofnodi ystadegau allyriadau carbon y Gwasanaeth, a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn ei hystyried. Mae'r daenlen yn cofnodi allyriadau sylfaenol ac yn monitro cynnydd y sector cyhoeddus tuag at gyflawni'r uchelgais cyfunol o sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030.
- Gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd yn ystod 2021/22 gan Ricardo, ymgynghorydd allanol, a ffynonellau gwybodaeth eraill, datblygwyd Map Ffordd Lleihau Carbon a'i gymeradwyo trwy sianeli llywodraethiant y

Gwasanaeth cyn ei gyhoeddi a'i rannu â Llywodraeth Cymru. Bydd yr Amcanion sydd wedi'u cynnwys yn y Map Ffordd Lleihau Carbon yn cael eu monitro drwy'r Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd fel eitem sefydlog ar yr agenda.

- Mae nodau'r Map Ffordd wedi'u categoreiddio o dan: Trafnidiaeth a theithio cynaliadwy, rheoli adeiladau a chynnal a chadw tiroedd, y broses gaffael a'r gadwyn gyflenwi, gwastraff ac ailgylchu a phrosesau gweithredol, hyfforddiant a newid ymddygiad.
- Cymeradwywyd yr adroddiad Amgylcheddol Blynyddol sy'n amlinellu perfformiad a chyflawniadau'r Gwasanaeth tuag at ei amcanion amgylcheddol yn y cyfnod adrodd 2023/2024. Roedd yr adroddiad yn amlinellu meysydd perfformiad allweddol lle cafodd y Gwasanaeth yr effaith fwyaf ar yr amgylchedd, megis y defnydd o ynni, allyriadau carbon, y fflyd, cynhyrchu gwastraff a'r gadwyn gyflenwi.
- Cofnodwyd defnydd y fflyd ar gyfer cyfnod adrodd 2023/2024 fel:

- 456,204 litr o ddiesel (461,159 litr o ddiesel 2022/2023)
- 18,300 litr o HVO
- 46,203 kW o Gerbydau Trydan (EV). (56,314 kW o Gerbydau Trydan 2022/2023)

- Cofnodwyd y ffigurau gwastraff ar gyfer cyfnod adrodd 2023/2024 fel:

- Cyffredinol 79,976 tunnell (68,482 tunnell 2022/2023)
- Deunydd Ailgylchu Cymysg Sych 44,917 tunnell (52,076 tunnell 2022/2023)
- Gwastraff bwyd 31,864 tunnell (35,967 tunnell 2022/2023)

- Cofnodwyd y ffigurau gwrthbwyso $CO_2$ trwy ddefnyddio'r cerbydau trydan ar 384600 cilogram yn cael ei wrthbwyso, o'i gymharu â 35,270 kg o $CO_2$ trwy ddefnyddio cerbydau trydan o'i gymharu â cherbydau diesel ar gyfer 2022/2023.
- Cynhaliwyd gwerthusiad o'r fflyd Cerbydau Trydan (EV), gydag arolwg wedi'i ddrafftio i'w gylchredeg yn ehangach gan y grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd, i gasglu gwybodaeth nid yn unig am y fflyd EV ond hefyd am sawl maes pwnc arall, megis cymudo, gweithio gartref, milltiredd a sut y bydd staff yn defnyddio eu cerbydau. Roedd yr adroddiad gwerthuso yn cynnwys sefydlu meincnod ar gyfer defnyddio cerbydau, technoleg bresennol ac yn y dyfodol a rhwystrau/galluogwyr, mannau duon o ran seilwaith a gwefrwyr kw isel, gwerth am arian, buddsoddiad yn y dyfodol, a chyfrifiadau $CO_2$ a fforddiadwyedd.
- Cynhaliwyd treial ar gyfer y defnydd o Olew Llysiau Hydrogenedig (HVO), a awgrymodd y gellir defnyddio tanwydd HVO yn ddiogel mewn peiriannau tân a gynhyrchwyd o 2018 ymlaen, heb unrhyw effeithiau andwyol. Drafftiwyd adroddiad gwerthuso yn dilyn y treial gyda chynigion ar gyfer cyfres o opsiynau i'w hystyried cyn mabwysiadu tanwydd HVO. Mae clystyrau a safleoedd yn cael eu nodi i ddarparu opsiynau i'r Gwasanaeth yn y dyfodol. Bydd yr adolygiad yn sicrhau adenillion ar fuddsoddiad ac ar yr un pryd yn cydbwyso â budd amgylcheddol. Bydd y canlyniadau'n parhau i gael eu datblygu yn ystod cyfnod adrodd 2025/2026.

- Mae ymchwil gychwynnol wedi'i chynnal i Gerbydau Celloedd Tanwydd wedi'u Pweru gan Hydrogen (FCEV). Er bod y Gwasanaeth wedi defnyddio'r mathau hyn o gerbydau o'r blaen, mae'r dechnoleg wedi datblygu ers hynny. Ar hyn o bryd mae Wales & West Utilities yn treialu fan sydd wedi'i phweru gan hydrogen drwy ddefnyddio cysyniad seilwaith ail-lenwi lleol newydd y gellir ei ehangu ac sydd â chadwyn gyflenwi ar gyfer ailgyflenwi tanciau tanwydd.
- Cynhaliwyd trafodaethau rhwng adran Ystadau'r Gwasanaeth a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gadarnhau y newid manyleb, sy'n gysylltiedig â'r amodau cynllunio, a osodwyd ar y prosiect ynghylch defnyddio'r Uned Hyfforddi Ymddygiad Tanau Adrannol.
- Rhagwelir, pan fydd yr uned wedi cael ei chomisiynu, y bydd y gwerthusiad yn cael ei gynnal ar ôl 12 mis o ddefnydd, i ddechrau yng nghyfnod adrodd 2025/2026. Bydd y meini prawf gwerthuso yn cael eu nodi er mwyn bod yn barod ar gyfer hynny.
- Cafwyd grant seilwaith gwefru cerbydau trydan gwerth cyfanswm o £128,000, ac yn sgil hyn bydd cyfleusterau gwefru EV yn cael eu gosod yn sawl un o leoliadau'r Gwasanaeth, gan gynnwys Pontardawe, y Trallwng, Llanidloes, Rhaeadr Gwy, Glyn-nedd, Castellnewydd Emlyn, Crucywel, Llanfair-ym-Muallt, Aber-craf a Phort Talbot.
- Cynhaliwyd gwaith rhwng yr adrannau Ystadau a Diogelwch Tân Busnes mewn perthynas â gofynion storio batri.
- Archwiliodd adran Ystadau'r Gwasanaeth gyfleoedd ar gyfer defnyddio tanwydd Olew Llysiau Hydrogenedig (HVO) yn y boeleri yng Nghanolfan Hyfforddi Earlswood.
- Yn dilyn cydweithio â Gwasanaethau Ynni Llywodraeth Cymru (WGES) i gasglu gwybodaeth am gostau a thechnoleg, cafodd cais mynegi diddordeb ei ddrafftio a'i gyflwyno i gael gafael ar gyllid grant drwy Salix, ar gyfer gosod paneli solar ar y to ym Mhencadlys y Gwasanaeth, Canolfan Hyfforddi Earlswood a Gorsafoedd Tân Hwlffordd, Llandrindod a'r Drenewydd.
- Cafodd grant gwres carbon isel llwyddiannus ar gyfer gosod system wresogi o'r aer gymeradwyaeth cam 1, am swm o £70,500. Yn anffodus, roedd cais am grant o £860,000 yn aflwyddiannus, ac roedd yr adborth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod gormod o geisiadau am y cyllid.
- Parhaodd yr adran Gweithdrefnau Gweithredol a Dysgu (OPAL) i wneud cynnydd o ran cyflwyno Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol (NOG) ar gyfer diogelu'r amgylchedd, i gynnwys elfen tactegau diffodd tanau.
- Cynhaliwyd trafodaethau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i ddatblygu asesiad risg amgylcheddol
- Aeth y Cyfarwyddwr Adnoddau a'r Pennaeth Ystadau i ddigwyddiad Ystadau Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC). Canolbwyntiodd y trafodaethau yn ystod y digwyddiad ar ddatblygiadau Gorsafoedd Tân a chyfleusterau hyfforddi yn y dyfodol. Rhoddodd y digwyddiad gyfle i gwrdd â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill ac archwilio atebion amgylcheddol arloesol i'w hystyried yn ehangach.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

- Daliwyd ati i gynnal gwaith ymchwil a datblygu, gyda nifer o eitemau o offer diffodd tân yn cael eu treialu, gan gynnwys offer Gwrthdrawiadau ar y Ffordd (RTC) wedi'u pweru gan fatri, chwythwr tanau gwyllt a gwyntyll sy'n cael ei phweru gan fatri.
- Mewn cydweithrediad â'r adran Fflyd, Peirianneg a Logisteg (FELD) cafodd mesuryddion llif sy'n gallu cofnodi a storio'r defnydd o ddŵr mewn digwyddiadau hir ar raddfa fwy eu cynnwys ar beiriannau tân er mwyn eu treialu. Bydd defnyddio offer o'r fath nid yn unig yn gwella ymwybyddiaeth criwiau o faint o ddŵr a ddefnyddir mewn digwyddiadau, ond hefyd yn creu maes tân mwy diogel, effeithlon ac effeithiol ac yn cefnogi argymhellion adroddiad y Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub ymhellach.

- Cynhaliodd yr adran Offer Gweithredol a Sicrwydd (OEA) drafodaethau cynnar gyda'r adran Darparu Hyfforddiant, i archwilio cyfleoedd i ddefnyddio pympiau dŵr trydan ar gyfer ymarferion hyfforddi. Byddent yn cael eu defnyddio ar gyfer cyrsiau hyfforddi Offer Anadlu ac yn cael gwared ar yr angen am beiriant sy'n cael ei bweru gan ddiesel i ddarparu dŵr diffodd tân ar gyfer hyfforddiant ymddygiad tanau adrannol. Trafodwyd adborth gyda'r gwneuthurwr, sy'n edrych ar yr addasiadau. Cyflwynwyd cais am grant i Lywodraeth Cymru ar gyfer prynu pympiau trydan, ond roedd yn aflwyddiannus; mae llwybrau cyllido eraill bellach yn cael eu harchwilio o fewn y Gwasanaeth.
- Dyfarnwyd tendr llwyddiannus i Clan Tools ar gyfer cyflenwi offer Gwrthdrawiadau ar y Ffordd (RTC) ac offer achub a weithredir gan drydan. Mae gwyntyllau Awyru Gwasgedd Positif (PPV) trydanol wedi'u treialu; bydd gwaith yn parhau i fonitro eu heffeithiolrwydd wrth i dechnoleg a dyluniadau gwyntyllau PPV trydanol ddatblygu yn y dyfodol.
- Mae Cyfarpar Gweithredol a Sicrwydd, Darparu Hyfforddiant ac Ymateb yn treialu sbigynnau niwl gwasgedd uchel ac isel, a fydd yn defnyddio llai o ddŵr i helpu i atal tanau.
- Parhaodd y gwaith gyda'r defnydd o ddŵr wedi'i drin ag uwchfioled (UV) mewn cydweithrediad â Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.
- Y Gwasanaeth oedd y sefydliad sector cyhoeddus cyntaf yng Nghymru i dreialu dau fonitor ynni (gwerth £2,000 yr un) ar safle Pencadlys y Gwasanaeth drwy Gynllun Well-being Wales Lyreco. Bydd y dyfeisiau electronig yn cynorthwyo gyda chasglu data mewn perthynas â defnydd ynni'r Gwasanaeth.
- Roedd y Pennaeth Caffael yn aelod o banel mewn digwyddiad menter gymdeithasol a drefnwyd gan Cwmpas a bu'n cyflwyno mewn digwyddiad datblygu Busnesau Bach a Chanolig a drefnwyd gan Gyngor Sir Gâr.
- Cymeradwywyd fframwaith Caerffili ar gyfer darparu bwyd a chyflenwadau gyda Chastell Howell i gyflenwi safle'r pencadlys, gan roi cyfle i'r Gwasanaeth gael mentrau Gwerth Cymdeithasol ar gyfer ardal y Gwasanaeth, gan gynnwys rhoddion i fanciau bwyd lleol.
- Daliwyd ati i wneud cynnydd gyda fframweithiau masnach sy'n gysylltiedig ag ystadau ac sy'n cwmpasu crefftau amrywiol, megis rhai trydanol, gosod toeon,

gosod lloriau, a gwaith coed ac adeiladu, ac mae fframweithiau wedi'u sefydlu gyda lotiau rhanbarthol ar gyfer pob un o'r chwe sir y mae'r Gwasanaeth yn eu cwmpasu. Diben hyn yw helpu i sicrhau bod contractau cynaliadwy ar waith, lle mae teithio yn cael ei leihau gymaint â phosibl a mentrau gwerth cymdeithasol yn cael eu rhoi yn ôl i gymunedau lleol. Dyfarnwyd gwobr Canmoliaeth Uchel i enghreifftiau'r Fframwaith Masnach am y Cyflawniad Caffael Gorau yng Ngwobrau Caffael Go Wales ym mis Tachwedd 2024.

- Gwnaed cynnydd o ran gweithio gyda chyflenwyr a defnyddwyr i wneud y gadwyn gyflenwi yn ystyriol o ran yr amgylchedd, gan gynnwys annog Busnesau Bach a Chanolig trwy ymgysylltu â nhw ar ofynion tendro’r Gwasanaeth gan helpu i chwalu unrhyw rwystrau.
- Cafodd Dangosyddion Perfformiad Allweddol eu cynnwys ar bob contract ar gyfer casglu gwybodaeth i gynorthwyo gydag adrodd ar allyriadau Cwmpas 3.

**Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod**

- Bydd gwaith yn parhau o ran gweithio gyda chyflenwyr i wella eu gallu i adrodd ar allyriadau Cwmpas 3.
- Bydd mwy o fframweithiau masnach yn cael eu sefydlu, gyda'r nod o ddefnyddio cyflenwyr lleol, a thrwy hynny leihau ôl troed carbon y Gwasanaeth ymhellach wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer y tîm Ystadau.
- Canfod modd o ddigideiddio a symleiddio prosesau ar draws y Gwasanaeth, er mwyn lleihau'r defnydd o bapur.

***Sut y cyfrannodd Amcan Saith at y Pum Ffordd o Weithio?***

| ***Tymor hir -*** *Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.* | ***Atal -*** *Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.* | ***Integreiddio*** *-Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.* | **Cydweithredu -** *Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun.* | **Cynnwys -** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn *cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.* |
|---|---|---|---|---|
| Fe wnaeth ymchwilio i dechnolegau newydd a thechnolegau sy'n dod i'r amlwg barhau i gefnogi'r Gwasanaeth i weithio mewn ffordd sy’n ystyriol o’r amgylchedd ac yn gynaliadwy.<br>Sicrhaodd y canlyniad tymor hwy Wasanaeth sy'n gyfrifol yn amgylcheddol trwy wella perfformiad amgylcheddol y Gwasanaeth; gwella effeithlonrwydd yn y defnydd o adnoddau; a lleihau cymaint â phosibl ar yr effaith ar yr amgylchedd. | Trwy ddefnyddio systemau technoleg a meddalwedd i fonitro a dadansoddi data roedd modd gweithredu mesurau ataliol, gan helpu i leihau allyriadau carbon a chael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd a'r cymunedau lleol. | Bydd parhau i integreiddio ac ymgorffori prosesau sy’n amgylcheddol gynaliadwy ledled y Gwasanaeth yn helpu i leihau effaith amgylcheddol gweithgareddau'r Gwasanaeth ar y cymunedau lleol. | Trwy archwilio cyfleoedd i gydweithio â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau partner ar brosiectau amgylcheddol roedd modd rhannu arferion gorau a chaniatáu cyfleoedd i wersi gael eu dysgu, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol i gymunedau. | Trwy gynnwys staff wrth lunio mentrau cynaliadwyedd a darparu addysg ac ymwybyddiaeth, trwy'r Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd, llwyddwyd i'w grymuso i gymryd perchnogaeth ar newid amgylcheddol cadarnhaol o fewn y Gwasanaeth. |

# Amcan Gwella a Llesiant Wyth – Cerbydau ac Offer.

**8**

**Byddwn yn datblygu ein gofynion fflyd ac offer fel y gallwn ymateb yn effeithiol i argyfyngau.**

**Er mwyn cyflawni'r Amcan Gwella a Llesiant hwn, dywedasom y byddem yn:**

**Cam gweithredu 8.1:** Bod â cherbydau ac offer a fydd yn cefnogi rheolaeth effeithiol o halogiad mewn argyfyngau.

**Cam gweithredu 8.2:** Darparu'r cerbydau priodol i'n diffoddwyr tân ymateb i'r risgiau yn ein cymunedau.

**Cam gweithredu 8.3:** Sicrhau bod ein cyfarpar gweithredol yn ein galluogi i fod yn effeithiol mewn digwyddiadau brys.

**Datganiad cynnydd Amcan Wyth ar gyfer cyfnod adrodd 2024/2025:**

- Cynhaliwyd ymchwil i'r farchnad ac ymarferion meincnodi i nodi'r mathau o opsiynau sydd ar gael i gefnogi'r gwaith o reoli halogiad yn effeithiol mewn argyfyngau, gan gynnwys yr opsiynau o gael cerbyd cymorth, ar gyfer symud Offer Gwarchod Personol (PPE) o ddigwyddiadau er mwyn atal cludo PPE halogedig yn ôl i'r Orsaf.
- Ymwelodd yr adrannau Fflyd, Peirianneg a Logisteg a Chyfarpar Gweithredol a Sicrwydd a'r Swyddog Halogyddion â Gwasanaeth Tân ac Achub Dyfnaint a Gwlad yr Haf i weld eu Cerbyd Cynorthwyo Lles mewn Digwyddiadau ar gyfer Golchi/Diheintio Offer Anadlu, yn ogystal â'r peiriannau canolig y maent yn eu defnyddio.
- Cynhaliwyd diwrnod arddangos cerbydau ac offer ym mis Hydref yng Nghanolfan Hyfforddi Earlswood, gan roi cyfle i weithgynhyrchwyr arddangos offer a chysyniadau newydd sydd ar gael.
- Cyflwynwyd peiriannau tân gyda chabiau clir, ac mae hynny wedi cael effaith gadarnhaol ar reoli PPE halogedig.
- Er mwyn cefnogi ymarfer paru gallu proffilio risg, crëwyd catalog o gerbydau sy'n cwmpasu ystod o amgylchiadau defnyddio, o beiriannau amlbwrpas llai i gerbydau achub technegol pwrpasol.
- Sefydlwyd gweithgor i archwilio a nodi gofynion y Gwasanaeth ar gyfer treialu a gwerthuso cerbydau ac offer. Roedd y gynrychiolaeth yn cynnwys

trawstoriad o'r sefydliad gan roi'r cyfle i roi eu barn yn ystod y cam datblygu a dylunio.

- Nododd ymarferion ymchwil a datblygu 3 cysyniad o gerbydau i'w hystyried ymhellach, gan gynnwys:

- Cerbyd Cynorthwyo Digwyddiadau
- Peiriant Canolig gyda gwell mynediad
- Tanc dŵr symudol llai.

- Mae papur opsiynau ar gyfer y cerbydau a nodwyd yn cael ei ddatblygu, sy'n amlinellu eu galluoedd yn erbyn proffil risg a gofynion y Gwasanaeth, a bydd yn cael ei gyflwyno drwy'r sianeli llywodraethiant priodol i'w ystyried ymhellach yn y cyfnod adrodd 2025/2026.
- Cymeradwywyd oedi'r broses o gael peiriannau newydd ar gyfer y fflyd. Mae'r cynnig yn oedi pob achos o brynu pympiau achub newydd ac yn clustnodi arian i fuddsoddi fel y bo'n briodol, tan y ceir canlyniadau a gwerthusiad y broses treialu cerbydau.
- Datblygwyd gwahoddiad i dendro, gan ddefnyddio Fframwaith Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Canolbarth Lloegr ar gyfer caffael offer Gwrthdrawiadau ar y Ffyrdd (RTC), gyda chyfnod prawf wedi'i drefnu i archwilio'r holl opsiynau sydd ar gael gyda gwahanol gyflenwyr.
- Cafodd gwahanol fathau o offer eu treialu, gan gefnogi'r argymhellion yn dilyn ymweliad arolygu gan Brif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru, Dan Stephens.

- Cafodd pibellau 22mm a 51mm eu treialu yng Ngorsaf Dân Ganolog Abertawe a'r Ysgol Hyfforddi Offer Anadlu. Roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol. Cyflwynwyd cais am gyllid i Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o osod pibellau 22mm ar y peiriannau tân cab clir ar draws y Gwasanaeth.
- Hefyd, archwiliwyd sbigynnau niwl ar gyfer tactegau diffodd tanau ymosodol ac amddiffynnol allanol.
- Cafodd dyfais Aquaeye Sonar ei threialu. Defnyddir y ddyfais hon i sganio dan yr wyneb am unrhyw un a allai fod yn y dŵr, er mwyn cynorthwyo Gorsafoedd SRT (achub arbenigol)/Cychod.
- Cafodd Mesurydd Llif Delta ar gyfer cofnodi'r defnydd o ddŵr a chyfraddau llif ei werthuso yng Ngorsaf Dân Treforys.
- Cafodd Camera Delweddu Thermol (TIC) wedi'i osod ar helmed, a TIC llaw newydd ei dreialu gyda'r tîm Offer Anadlu.

- Ailsefydlwyd y Gweithgor Tanau Cerbydau Trydan (EV), a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd.
- Mewn cydweithrediad â'r Adran Fflyd, Peirianneg a Logisteg, i gefnogi argymhellion y Prif Gynghorydd ac Arolygydd, cynhaliwyd trafodaethau i archwilio'r posibilrwydd o ôl-osod mesuryddion llif ar beiriannau er mwyn gwerthuso.
- Darparwyd arddangosiad ar gyfer offer bach sy'n cael eu gweithredu gan fatris, a fydd, os cânt eu caffael, yn golygu na fydd angen defnyddio offer sy'n cael eu rhedeg ar ddiesel.

- Dechreuodd adolygiad o'r offer ar beiriannau tân er mwyn cael rhestr safonol ar waith ac adolygu'r math o offer sy'n cael ei gario ar beiriannau.
- Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i ganfod PPE Aml-Swyddogaeth priodol sy'n cyd-fynd â'r risgiau a'r mathau o ddigwyddiadau yr ymatebir iddynt. Mae cysyniad pedwar cam yn cael ei ddatblygu sy'n edrych ar wahanol opsiynau o PPE, i sicrhau bod personél yn gwisgo PPE sy'n ddigonol ar gyfer y risg. Bydd y cam nesaf yn dechrau edrych ar fwy o fanylion gyda manylebau a delweddau. Rhoddir yr wybodaeth hon mewn manyleb allbwn lefel uchel ac yna edrych ar alluoedd, a fydd yn cael eu harchwilio dros y 3-6 mis nesaf.
- Mae'r Gwasanaeth wedi datganoli cronfa'r fflyd yn dilyn adolygiad o'r defnydd i ddarparu mwy o hyblygrwydd i Ranbarthau ac Adrannau fel y gallant ddefnyddio'r asedau sydd o dan eu rheolaeth yn well.

**Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod**

- Bydd dillad gwaith corfforaethol newydd yn cael eu cyflwyno, a ddylai wella cysur diffoddwyr tân, yn sgil y dewis o ddillad mwy technegol, amrywiol, pwrpasol ar gyfer y gwaith.
- Mae datganoli cronfa'r fflyd wedi'i ledaenu ar draws Rhanbarthau, Hyfforddiant a Diogelwch Cymunedol, a fydd yn rhoi cyfle i ddisodli cerbydau cyffredinol gyda rhywbeth sy'n fwy addas i'w hanghenion. Er enghraifft, gellid cael tryciau 4X4 yn lle faniau Combo, er mwyn rhoi gwell cefnogaeth gyda thanau gwyllt, llifogydd ac amodau lle ceir mwy o alwadau nag arfer. Bydd hyn yn gwella gwydnwch gweithredol ymhellach heb orfod ychwanegu cerbydau at y fflyd.
- Bydd opsiynau'n cael eu cyflwyno trwy broses lywodraethiant y Gwasanaeth i dreialu sawl math gwahanol o gerbydau a fydd yn esblygu fflyd y Gwasanaeth ac o bosibl yn gwella ymateb gweithredol a gwydnwch.
- Bydd adolygiad o'r offer ar beiriannau tân yn cael ei gynnal, gyda'r nod o gael rhestr safonol ar waith. Bydd Cam 1 yr adolygiad yn cadarnhau'r offer craidd sy'n cael eu cario ar beiriannau; bydd Cam 2 yr adolygiad yn cynnwys archwilio cyfleoedd i gael offer tymhorol ar beiriannau, er enghraifft, offer tanau gwyllt yn ystod y gwanwyn ac offer llifogydd yn ystod y gaeaf.
- Gweithio gyda chyflenwyr i gynhyrchu opsiynau i ôl-osod a gwella cerbydau presennol er mwyn manteisio ar yr hyn a ddysgwyd yn diweddar a chanlyniadau'r adolygiad o'r stocrestr, er enghraifft man cadw chwythwyr dail.

## *Sut y cyfrannodd Amcan Wyth at y Pum Ffordd o Weithio*

| ***Tymor hir -*** *Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.* | ***Atal -*** *Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.* | ***Integreiddio*** *-Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.* | **Cydweithredu -** *Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant ei hun.* | **Cynnwys -** Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn *cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.* |
|---|---|---|---|---|
| Mae gofynion fflyd ac offer sy'n esblygu yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu cwrdd â risgiau newydd a risgiau sy'n dod i'r amlwg.<br>Mae'n cefnogi'r Gwasanaeth ymhellach i ymateb yn effeithiol i argyfyngau drwy barhau i fod yn wydn ac yn gynaliadwy. | Mae'n gwella diogelwch diffoddwyr tân ac yn cynorthwyo i ymateb i'r risgiau o fewn cymunedau yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol. | Mae offer modern yn gwella effeithlonrwydd ac yn lleihau'r effaith amgylcheddol. | Mae gweithio ar y cyd â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill, asiantaethau partner a gweithgynhyrchwyr yn helpu i nodi arferion gorau a gwersi a ddysgwyd, gan ddarparu mwy o werth am arian. | Mae cynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu a dylunio atebion yn sicrhau bod gofynion cerbydau ac offer yn bodloni anghenion y defnyddwyr yn y pen draw. |

**Rhagor o wybodaeth.**

Mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth fanylach am feysydd y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y ddogfen hon.

Yn Adran Perfformiad ein gwefan, fe welwch wybodaeth am: -

- Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040.
- Cynlluniau Corfforaethol.
- Cynllun Strategol.
- Cynlluniau Gwella Busnes Blynyddol.
- Asesiadau Perfformiad Blynyddol.
- Adroddiadau Ymgynghori.
- Adroddiadau Archwilio Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.
- Adroddiadau Dangosyddion Perfformiad Cymru.
- Y Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan.

Rydyn ni'n croesawu eich sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau cynllunio yn y dyfodol. I roi eich adborth, gallwch gysylltu â ni drwy ein gwefan **www.tancgc.gov.uk/cym/**, ein ffonio ni ar 0370 6060699 neu ysgrifennu atom ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Lôn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP. Fel arall, gallwch anfon e-bost atom yn mail@mawwfire.gov.uk.

**Fersiynau Amgen**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch. Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn iaith neu fformat arall neu ar ffurf sain, cysylltwch â ni ar 03706060699 neu e-bostiwch: crmp@mawwfire.gov.uk

**Gwneud Cais am Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref**

Gallwch ofyn am archwiliad diogelwch tân yn y cartref i chi'ch hun, neu berthynas neu gymydog sy'n ddibynnol arnoch, drwy gysylltu â'r Gwasanaeth ar 0800 169 1234 neu drwy fynd i www.mawwfire.gov.uk/cym/

**Dilynwch ni ar:**

Facebook: facebook.com/mawwfire

X (Twitter gynt): @mawwfire

Instagram: mawwfire_rescue

**Atodiad 1**

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Datganiad Cynnydd.**
Mae'r Gwasanaeth yn deall pwrpas a nodau'r Ddeddf ac yn ymrwymedig i sicrhau ei fod yn ystyried effaith hirdymor penderfyniadau ar gymunedau. Mae Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) 2040 yn amlinellu ymrwymiad tymor hwy ac wyth Amcan Gwella a Llesiant a fydd yn helpu i gyflawni'r saith nod Llesiant mewn sawl ffordd. Datblygwyd yr Amcanion Gwella a Llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac maent yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio, gan ddangos sut mae pob un yn helpu i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol Cymru.

Felly bydd y Gwasanaeth yn sicrhau, wrth wneud penderfyniadau, fod yr ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r effaith y gallai'r penderfyniadau ei chael ar y bobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol. Fe wnaeth y Gwasanaeth hefyd roi ystyriaeth briodol i amrywiaeth gyfoethog y bobl yng nghanolbarth a gorllewin Cymru ac mae'n parhau i gydweithio ag eraill i helpu'r Awdurdod i gyflawni ei Amcanion Gwella a Llesiant, ac fel arall hefyd, i helpu eraill i gyflawni eu rhai hwy.

Yn ogystal, defnyddiwyd dull cydweithredol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol i ddatblygu'r CRhRC, gan sicrhau bod yr Amcanion Gwella a Llesiant yn cyfrannu at ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Amlinellodd CRhRC 2040 hefyd sut yr oeddem wedi ystyried Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a Nodau Llesiant:

### Hirdymor

Fe wnaeth y Gwasanaeth barhau i edrych ar dueddiadau tymor hir a chynhaliodd ddadansoddiad o'i weithredoedd i sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn rhagweithiol yn hytrach nag ymatebol, gan felly fodloni anghenion ein cymunedau a'n rhanddeiliaid yn well trwy wneud cymunedau mor ddiogel â phosibl, a pheidio â pheryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae meddwl tymor hir wedi'i ymgorffori mewn arferion busnes, a bydd y Gwasanaeth yn parhau i fabwysiadu dull gwylio'r gorwel fel rhan o'i brosesau cynllunio.

Wrth osod ei Amcanion Gwella a Llesiant, sicrhaodd y Gwasanaeth ei fod yn parhau i weld ac yn monitro tueddiadau'r dyfodol a heriau hirdymor a allai gael effaith andwyol ar y gwasanaethau a ddarperir. Parhaodd y Gwasanaeth i addasu ac arallgyfeirio ei weithgareddau i ddiwallu anghenion ein cymunedau'n well, yn ogystal â gwella'r ffordd y mae'n diwallu anghenion y bobl sy'n gweithio, yn byw ac yn ymweld â chymunedau canolbarth a gorllewin Cymru i'w gwneud yn fwy diogel.

### Atal

Roedd atal, amddiffyn, ac ymyrraeth gynnar yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth, a'i ymrwymiad i wneud y cymunedau mor ddiogel â phosibl, trwy adolygu ac addasu gwasanaethau ymyrraeth yn barhaus. Daliodd y Gwasanaeth ati i gymryd ymagwedd ragweithiol, integredig, a chydweithredol tuag at y gwasanaethau y mae'n eu darparu, trwy weithio'n agos gyda sefydliadau partner newydd a rhai

presennol i gyflwyno negeseuon diogelwch wedi'u teilwra, gan sicrhau'r effaith gadarnhaol fwyaf posibl yn ein cymunedau. Roedd y ffocws ar gyfer atal yn canolbwyntio ar atal problemau rhag digwydd neu waethygu trwy sicrhau bod ymyrraeth gynnar yn digwydd a bod cymunedau wedi cael cymaint o wybodaeth â phosibl.

**Integreiddio**

Mabwysiadodd y Gwasanaeth ddull integredig wrth ddatblygu ei Amcanion Gwella a Llesiant, a thrwy weithio mewn ffordd fwy integredig roedd modd i'r Gwasanaeth ddatrys problemau'n fwy effeithiol ac effeithlon. Bu mabwysiadu dull ar y cyd i wneud y gorau posibl o gyfleoedd a chydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid o gymorth wrth leihau'r dyblygu ymdrech ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus a hefyd roedd yn fodd o rannu adnoddau, dysgu a gwybodaeth er budd ein cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol.

**Cydweithio**

Mae cydweithio â phartneriaid yn holl bwysig i'r Gwasanaeth, gan gydweithio â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru mewn nifer o ffyrdd, ac mae wedi addasu dull "Cymru gyfan" mewn nifer o feysydd. Fe wnaeth y dull cydweithredol hwn hefyd nodi'r dulliau cyflenwi mwyaf cost-effeithiol ac effeithlon ar draws y tri Gwasanaeth Tân ac Achub ar nifer o faterion pwnc. Mae'r Gwasanaeth yn deall bod gweithio'n agos gyda phartneriaid yn sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cael yr effaith fwyaf bosibl ar gymunedau ac yn cyflwyno negeseuon diogelwch ar y cyd. Felly, bydd y Gwasanaeth yn parhau i adeiladu ar berthnasoedd presennol ac yn chwilio am gyfleoedd newydd i ddatblygu partneriaethau newydd a phresennol er mwyn defnyddio'i asedau yn y modd mwyaf effeithiol.

**Cyfranogiad**

Fe wnaeth y Gwasanaeth ymgynghori'n eang â'i randdeiliaid, sefydliadau partner a'r cyhoedd. Ymgysylltwyd â chymunedau lleol trwy ddigwyddiadau ac ymgyngoriadau, gan eu hannog i gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a oedd yn annog deialog ddwyffordd a hefyd yn sicrhau eu bod yn cael dweud eu dweud ar sut mae'r Gwasanaeth yn cyflawni ei Amcanion Gwella a Llesiant. Roedd annog cyfranogiad y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau yn eithriadol o bwysig.

Roedd cyfraniad y Gwasanaeth tuag at gyflawni **Cymru Lewyrchus** yn cynnwys darparu mwy o wybodaeth a chymorth gan bob un o'n cysylltiadau wrth ymweld â phobl yn y cymunedau i gadw pobl yn fwy diogel yn eu cartrefi. Cyfrannodd y Gwasanaeth hefyd at gyflawni **Cymru Lewyrchus** trwy reoli ei asedau mewn ffyrdd gwell, mwy cost-effeithiol ac effeithlon; adeiladu ar berthnasoedd presennol a chwilio am gyfleoedd newydd i sicrhau'r buddion gorau i'r gymuned a gwella'r cyfraniad at yr economi leol a lleihau'r costau i gymdeithas.

Llwyddwyd i gyfrannu tuag at **Gymru Gydnerth** drwy ystyried technoleg newydd ac arloesedd o fewn y Gwasanaeth a deall yn well yr effaith ar yr amgylchedd er mwyn cyflawni lleihad mewn ôl troed carbon, gan barhau i gynnal safon uchel o ran darparu gwasanaethau.

Sicrhawyd **Cymru iachach** drwy gynyddu cysylltedd a digideiddio, a gynorthwyodd y Gwasanaeth i ddarparu gwasanaethau brys a gwasanaethau diogelwch cymunedol i gymunedau; gan sicrhau bod cyngor a rhaglenni ymyrraeth yn cael eu darparu i gynorthwyo unigolion i wella eu ffordd o fyw.

Sicrhawyd cyfraniad y Gwasanaeth tuag at **Gymru o Gymunedau Cydlynus** drwy wella atebion wedi'u digideiddio a datblygu technolegau gwybodaeth a chyfathrebu, drwy gyfrannu at ddatblygu cysylltedd a'n darpariaeth gwasanaethau i'r cyhoedd.

Er mwyn helpu i greu **Cymru sy'n Fwy Cyfartal**, blaenoriaethodd y Gwasanaeth ei ymyriadau ar gyfer yr unigolion hynny oedd fwyaf agored i niwed er mwyn gwella eu hamgylchiadau a rhoi cyngor iddynt i'w galluogi i wella eu ffordd o fyw.

Cyfraniad y Gwasanaeth at **Gymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** oedd parhau i annog a hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg o fewn ardal y Gwasanaeth. Lle bo'n bosibl, hyrwyddwyd mynediad at wasanaethau trwy ddefnyddio'r Gymraeg, er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith. Hefyd, anogwyd gweithwyr i siarad eu dewis iaith yn y gweithle a darparu cyfleoedd i weithwyr sy'n dymuno dysgu Cymraeg.

Dylanwadodd y Gwasanaeth ar gyflawni **Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang** drwy barhau i wneud newidiadau sylweddol i leihau faint o bapur a ddefnyddir yn ei weithgareddau drwy annog cyflwyno pob gohebiaeth a dogfennaeth yn electronig.

Fel y nodir yn y Ddeddf, rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol drwy fynd i'r afael ag anghenion llesiant penodol yr ardal. Mae'r Gwasanaeth wedi coleddu'r egwyddor hon ac wedi parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i ymgymryd â'i gyfrifoldebau fel partner statudol.

Mae'r Gwasanaeth wedi gweithredu wedyn yr ethos o sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol yn ei arferion busnes. Adlewyrchwyd arwyddocâd yr Amcanion a geir yng Nghynlluniau Llesiant pob un o'r chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Amcanion Gwella a Llesiant y Gwasanaeth ei hun, a sicrhaodd fod gweithio gyda phartneriaid i sicrhau gwell canlyniadau i'n cymunedau yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Mae'r Gwasanaeth wedi ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth ffurfio ei CRhRC 2040, ond mae hefyd wedi ymgorffori sawl ffordd newydd o weithio yn y modd y mae'r sefydliad yn cael ei redeg o ddydd i ddydd. Bu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddylanwad mawr ar Edefyn Aur y Gwasanaeth. O gynlluniau datblygu unigol a strategaethau adrannol, hyd at CRhRC 2040, mae ethos y Ddeddf yn cael lle amlwg. Boed yn ffurfio partneriaethau newydd; mabwysiadu dull o wylio'r gorwel yn rhan o'n prosesau cynllunio at y dyfodol; neu ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei brosesau mewnol, mae wedi sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu, heb gyfaddawdu ar genedlaethau'r dyfodol.

**Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.**
**Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.**
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

**Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

Parhaodd y Gwasanaeth i fod yn ymrwymedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a pharhaodd i goleddu ei ddyletswyddau a'i rôl fel partner statudol ar y chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Dyma rai o'r meysydd allweddol y bu'r Gwasanaeth ynghlwm â hwy:

Ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, cynhaliwyd digwyddiad pentref diogelwch cymunedol fel rhan o Her Diffoddwyr Tân Cymru ddydd Sadwrn, 01 Mehefin 2024 yn Sgwâr Dylan Thomas, Abertawe, a bu'n gyfle i ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd ar amrywiaeth o bynciau. Daeth nifer dda o bobl i'r digwyddiad ac arweiniodd at dros 500 o ymgysylltiadau ag aelodau o'r cyhoedd.

Cynhaliwyd gweithdy 'atal wedi'i dargedu' ddydd Mercher, 20 Tachwedd 2024 gan y Gwasanaeth ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe yn Stadiwm Swansea.com. Roedd y digwyddiad yn cynnwys wyth cyflwyniad gyda siaradwyr gwadd a gweithdai a oedd yn caniatáu i gyfranogwyr drafod ystod o bynciau ym maes atal fel Rhannu Gwybodaeth Bersonol, Sicrhau'r Effaith Fwyaf Bosibl trwy Bartneriaethau a llwybrau atgyfeirio, Diogelu pobl agored i niwed a llawer mwy. Roedd y digwyddiad yn gyfle perffaith i asiantaethau partner drafod a hyrwyddo'r arfer gorau o ran sut i gadw cymunedau'n ddiogel.

Daeth y Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyfarwyddwr Adnoddau yn Swyddog Arweiniol ar gyfer y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan, sy'n ceisio cynyddu'r cydweithio ar seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan mewn lleoliadau sector cyhoeddus, trwy ymchwilio, dadansoddi a pharatoi deunyddiau sy'n rhoi golwg fanwl ar y cyfleoedd a'r rhwystrau sydd ynghlwm â Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan.

Parhawyd i ddarparu cymorth i sawl un o is-grwpiau'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys Gweithgor Tlodi BGC Sir Benfro, Grŵp Rhwydwaith Ymgysylltu a Mewnwelediad BGC Powys, Grŵp Llywio Dinas Hawliau Dynol BGC Abertawe, grŵp data rhanbarthol Bae Abertawe a Grŵp Llywio BGC Castell-nedd Port Talbot ymhlith eraill.

## Atodiad 2 - Asesiad Perfformiad Blynyddol 2024/2025 - Diweddariad cynnydd ar y galluogwyr

**Ein Pobl.** Rydym ni’n cydnabod mai ein pobl yw calon ein sefydliad a’u bod yn allweddol er mwyn cyflawni popeth rydym ni’n ei wneud yn llwyddiannus. Rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gweithlu'n cynrychioli'r cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu, ac yn eu hysbrydoli a'u hannog i fod y gorau y gallant fod. Bydd y Gwasanaeth yn cefnogi ein pobl gyda'u hiechyd a'u llesiant er mwyn sicrhau bod ganddynt y gwydnwch personol sydd ei angen arnyn nhw i gyflawni eu rôl.

**Datganiad cynnydd.**

Mae'r bobl sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli i ni yn gweithio'n galed i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n cymunedau.  Gan gydnabod mai ein staff yw ein hased mwyaf gwerthfawr, rydym am sicrhau bod gan ein staff yr offer a’r hyfforddiant i allu cyflawni eu rolau hyd eithaf eu gallu a'u hannog i gyrraedd eu potensial llawn.

Mae recriwtio, datblygu, a chadw gweithlu hynod o fedrus, dwyieithog ac amrywiol sy'n cynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn hynod bwysig i ni.  Roedd y dull hwn yn nodi ac yn gwneud y mwyaf o botensial ein gweithlu ac yn cynnal diwylliant sy'n perfformio'n dda, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o arian cyhoeddus.

Bu iechyd a lles ein staff, ers nifer o flynyddoedd, yn faes blaenoriaeth i ni, gan ein bod yn cydnabod bod llawer o fuddion i gael gweithlu iach. Ein nod yw gwneud yr hyn a allwn i helpu ein staff i fwynhau bywydau hirach, iachach a bodlon, gan leihau ein lefelau salwch ar yr un pryd.

Rydym am i staff gael yr hyder a'r lle i dyfu a datblygu, gan eu galluogi i gyflawni eu potensial a chyrraedd eu nodau o ran gyrfa. Mae darparu cyfleoedd datblygu i staff nid yn unig yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau cywir i ymgymryd â'u rôl, ond hefyd yn creu amgylchedd lle mae staff yn cael eu grymuso a'u hannog i gymryd rhan yng ngwaith y Gwasanaeth yn ehangach.

**Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Llywodraethiant, gwneud penderfyniadau a gwelliant parhaus.** Rydym yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol sy'n rhagweithiol ac yn ein galluogi i addasu'n llwyddiannus i gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg, bygythiadau posibl, a heriau. Rydym ni'n atebol am y penderfyniadau rydym ni'n eu gwneud. Mae llywodraethiant da a gwneud penderfyniadau cyfrifol yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau gorau i'n cymunedau.

Rydym yn cydnabod nad yw atebolrwydd yn ymwneud â chymryd cyfrifoldeb yn unig – mae'n cynnwys ymrwymo i set o weithredoedd, agweddau, dyheadau, a disgwyliadau sy'n pennu sut rydym yn arwain ac yn rheoli, y gwerth y gallwn ei ychwanegu at ein gwasanaeth presennol, ac ysgogi unrhyw arloesedd yr ydym yn dymuno ymgymryd ag ef.

**Datganiad cynnydd.**

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol; bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y rhoddir cyfrif priodol amdano, a’i fod yn cael ei ddefnyddio mewn modd darbodus, effeithlon, effeithiol a theg.

Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y caiff ei swyddogaethau eu cyflawni, gan roi ystyriaeth i gyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a thegwch. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant, a gynlluniwyd er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu i'r eithaf i'r saith nod llesiant cenedlaethol, gan ganolbwyntio ar ddatblygiad cynaliadwy.

O ganlyniad i gyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sefydlwyd hefyd fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau, democratiaeth, llywodraethiant a pherfformiad llywodraeth leol, gan gynnwys darparu polisi aml-leoliad ar gyfer cyfarfodydd.

Wrth gyflawni ei gyfrifoldeb cyffredinol, mae Aelodau’r Awdurdod Tân a’i Uwch-swyddogion yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethiant gwaith yr Awdurdod Tân ac Achub, ynghyd â stiwardiaeth o’r adnoddau sydd ar gael iddo, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.

Mae'r Awdurdod Tân, ynghyd â'i amrywiol Bwyllgorau, paneli a gweithgorau, yn darparu ac yn cyflawni arweinyddiaeth strategol, sy'n galluogi'r Aelodau i benderfynu ar y materion sy'n effeithio ar y gwaith o gynnal yr Awdurdod Tân, yn unol ag egwyddorion tryloywder ac atebolrwydd democrataidd.

Mae'r gwaith o reoli a chyflawni swyddogaethau'r Gwasanaeth Tân o ddydd i ddydd yn cael ei wneud gan Swyddogion y Gwasanaeth Tân dan reolaeth ac arweiniad cyffredinol y Prif Swyddog Tân, sy'n cyflawni'r swyddogaethau hyn yn unol â'r fframwaith llywodraethiant a phenderfyniadau'r Awdurdod Tân a'i Bwyllgorau. Wrth wneud hynny, mae'r Prif Swyddog Tân yn cael ei gynorthwyo gan y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol.

Mae fframweithiau llywodraethiant cadarn yn sicrhau tryloywder, atebolrwydd, a gwelliant parhaus. Rydym yn adolygu ein perfformiad yn rheolaidd yn erbyn Amcanion Gwelliant a Llesiant ac yn ymgysylltu â budd-ddeiliad i sicrhau bod ein gwasanaethau yn parhau i fod yn ymatebol ac yn effeithiol.

**Gwydnwch Ariannol.** Fel gydag unrhyw sefydliad, mae cynaliadwyedd ariannol yn allweddol i lwyddiant hirdymor. Er ein bod yn setlo ein cyllideb yn flynyddol, byddwn yn gweithio'n galed i reoli ein cyllideb, ein rhaglen gyfalaf a'n trefniadau rheoli ariannol er mwyn sicrhau y gallwn gynllunio a darparu Gwasanaeth effeithiol ar gyfer y tymor hwy.

**Datganiad cynnydd.**

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) a gyflwynwyd i aelodau'r Awdurdod yn y Pwyllgor Rheoli Adnoddau ym mis Tachwedd 2024 ac i'r Awdurdod Tân ym mis Rhagfyr 2024 yn cydnabod yn glir yr angen i sicrhau y bydd canlyniad ymgynghoriad CRhRC 2040 yn pennu cyfeiriad strategol a fydd yn ei dro yn pennu'r cynlluniau ariannol a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion hynny. Bydd y cynlluniau hynny'n cael eu hadeiladu i sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor byr, canolig a hirdymor yr Awdurdod.

Mae'r Awdurdod yn defnyddio'r sesiynau cynllunio cyllideb gorfforaethol gydag Aelodau, fel rhan o'r broses cynllunio cyllideb flynyddol a phennu cyllideb ac yn defnyddio adborth yr Aelodau i lywio proses y gyllideb.

Bydd canlyniad yr ymgynghoriad CRhRC sy'n cael ei gynnal yn ystod 2025 yn cael ei ddefnyddio i lywio'r broses pennu cyllideb flynyddol ar gyfer 2026/2027 a'r blynyddoedd sydd i ddod. Bydd angen rheoli'r gwaith o gyflawni amcanion o fewn cyfyngiadau ariannol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod

**Cyfrifoldeb Corfforaethol Cymdeithasol.** Mae hunanreoleiddio ein cyfraniad at les Cymru drwy fesurau amgylcheddol a chymdeithasol yn chwarae rhan hanfodol yn ein Gwasanaeth. Bydd bod yn ecogyfeillgar; hyrwyddo tegwch, amrywiaeth, a chynhwysiant yn y gweithle; rhoi yn ôl i'r gymuned; a sicrhau bod penderfyniadau busnes yn foesegol i gyd yn rhan o edefyn aur ein Gwasanaeth, a byddant yn llywio ein camau gweithredu o ddydd i ddydd yn uniongyrchol.

**Datganiad cynnydd.**

Rydym ni'n cydnabod y gallwn gael effaith sylweddol ar yr economi a'r amgylchedd ac rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn gwneud ein dyletswydd foesol ac yn gwneud y mwyaf o'r manteision hyn i'r

cymunedau rydym ni'n eu gwasanaethu, gan wella ein cyfraniad i'r economi leol a lleihau costau i gymdeithas ar yr un pryd.

Mae gan bob tân yr awn allan ato gost i bobl, lleoedd, a'n hamgylchedd, felly mae atal, lle bynnag y bo modd, yn flaenoriaeth i ni. Bydd addasu ac arallgyfeirio ein gweithgareddau i ddiwallu anghenion ein cymunedau yn well a gwella'r ffordd yr ydym yn diwallu anghenion y bobl sy'n gweithio ac yn byw yn ein cymunedau ac yn ymweld â hwy yn helpu i'w gwneud mor ddiogel a llewyrchus â phosibl.

Mae gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu yn hynod bwysig i ni, felly, mae gweithio'n agos gyda'n partneriaid nid yn unig yn helpu i osgoi dyblygu gwasanaethau, mae hefyd yn well defnydd o arian cyhoeddus ac yn dod â llu o fuddion i'n cymunedau.

**Strategaeth Ddigidol a Thechnolegau Cyfathrebu a Gwybodaeth.** Mae Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn chwarae rôl ganolog wrth ddarparu'r offer, y galluoedd, a'r seilwaith angenrheidiol i gyflawni ein dyheadau strategol. Rydym yn defnyddio technolegau digidol a gwybodaeth i gefnogi ein darpariaeth weithredol a thrawsnewid busnes, a byddwn yn gwella hyn yn barhaus wrth i dechnoleg fwy newydd ddod ar gael. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i fanteisio ar ddatrysiadau technoleg ddigidol a gwybodaeth i gyflawni ein hamcanion strategol.

**Datganiad cynnydd**

Cysyniad Trawsnewid Digidol yn cael ei archwilio, i ddarparu dyheadau ar gyfer paratoi at y dyfodol.  Bydd y cysyniad yn symleiddio'r ffordd o weithio i'r Gwasanaeth i wella hygyrchedd, seiberddiogelwch, darparu awtomeiddio prosesau, gwelliannau a gwella ymgysylltiad â'r cyhoedd.

**Partneriaethau a Chydweithio.** Mae ein llwyddiant yn y dyfodol yn gysylltiedig yn uniongyrchol â sut rydym yn gweithio gydag eraill. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd partneriaethau ystyrlon ac effeithiol, a’r angen i ddatblygu a chynnal prosiectau ar y cyd gyda rhanddeiliaid allweddol. Heb os, gall partneriaethau a chydweithio priodol gefnogi darparu gwell canlyniadau i'n cymunedau, a chwarae rhan wrth ddarparu ein gwasanaethau mewn ffordd well, fwy cost-effeithiol, a mwy effeithlon.

**Datganiad cynnydd**

Mae partneriaethau effeithiol ag unigolion a grwpiau yn ein cymunedau yn hanfodol i gefnogi'r gwaith a wnawn a'n helpu i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Mae ymgysylltu a rhyngweithio â'r holl unigolion a grwpiau yn rhoi cyfle iddynt helpu i ddylunio a llywio'r

gwasanaethau a ddarparwn, yn ogystal â hyrwyddo'r hyn a wnawn a pha asedau a mentrau sydd ar gael yn ein cymunedau lleol.

Mae meithrin perthnasoedd presennol ymhellach, a chwilio am gyfleoedd i ddatblygu partneriaethau newydd, yn ein galluogi i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'n hasedau er budd pawb, gan wneud y mwyaf o'n heffaith a'n gwahaniaeth cadarnhaol i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Rydym yn parhau i gryfhau partneriaethau gydag awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd, yr heddlu, a mudiadau gwirfoddol. Mae'r cydweithrediadau hyn yn hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau integredig sy'n mynd i'r afael â risgiau cymunedol cymhleth ac yn gwella canlyniadau i bawb.

**Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.**
**Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.**
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.


**Atodiad 3**

**Straeon newyddion da am y gwaith a wnaed gan bob adran, rhwng 01 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.**

**<u>Diogelwch Tân Busnes</u>**

- Hwylusodd tîm Diogelwch Tân Busnes Rhanbarth y Gogledd ddigwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid 'Connect For' ar 24 Ebrill 2024 yng Ngorsaf Dân y Drenewydd, ac roedd nifer dda o bobl yn bresennol ar gyfer y digwyddiad. Ymhlith y rhai a oedd yn bresennol roedd asiantaethau partner golau glas, Byrddau Iechyd, Prifysgolion, Awdurdodau Lleol a Chymdeithasau Tai.
- Yn sgil drysau tân wedi'u gosod yn gywir mewn adeilad lle cafwyd tân yn Aberystwyth, llwyddwyd i atal lledaeniad y tân i weddill yr adeilad a chyfyngu'r tân, oedd wedi datblygu'n helaeth, i ran fechan o'r adeilad.





**<u>Diogelwch Tân Cymunedol</u>**

- Cynhaliodd yr adran Bentref Diogelwch fel rhan o Her Diffoddwyr Tân Cymru ddydd Sadwrn, 01 Mehefin yn Sgwâr Dylan Thomas, Canol Dinas Abertawe. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol gyda dros 500 o aelodau o'r cyhoedd yn ymwneud ag ef. Roedd yr adborth cadarnhaol gan y cyhoedd a'r asiantaethau a gymerodd ran yn tynnu sylw at effaith a gwerth y digwyddiad, gyda'r holl asiantaethau a gymerodd ran yn dweud eu bod wedi rhyngweithio'n gadarnhaol â'r cyhoedd. Cafodd y rhai a oedd yn bresennol gyfle i rwydweithio â'i gilydd, rhannu gwybodaeth a darparu gwasanaethau gwerthfawr i'r gymuned.





- Cynhaliwyd nifer o seremonïau cwblhau hyfforddiant Cadetiaid Tân, gan ddathlu eu gorchestion. Cynhaliwyd un Aber-craf ar 10 Gorffennaf gyda'r Cadetiaid yn derbyn  eu Gwobr Efydd a'u tystysgrifau gan y Pennaeth Corfforaethol Ymateb Brys, Hyfforddiant a Datblygiad. Cynhaliwyd un Blaendulais ar 11 Gorffennaf, gyda'r Prif Swyddog Tân yn cyflwyno'r gwobrau, ac yn olaf, cynhaliwyd un Treforys ar 17 Gorffennaf, gyda'r Pennaeth Corfforaethol Atal ac Amddiffyn yn cyflwyno'r gwobrau. Cafwyd adborth cadarnhaol gan rieni, a fynegodd eu diolch am yr effaith gadarnhaol ar eu plant.

- Parhawyd i gael adborth rhagorol ynglŷn â darparu addysg diogelwch mewn ysgolion.




- **Adborth cadarnhaol a gafwyd gan y Tîm Diogelwch Cymunedol:** Diolch yn fawr am gyflwyniad arbennig gyda'r dosbarth ddoe. Roedd y cyflwyniad yn wych a'r plant wedi dysgu llawer. Roedd yn amlwg eich bod wedi addysgu plant yn y gorffennol oherwydd eich rheolaeth gadarn o'r dosbarth a'r ffordd roeddech yn helpu'r disgyblion i ddeall. Croeso nôl i chi unrhyw amser i'r ysgol. Diolch, Athrawes dosbarth 1 a 2 Ysgol Dyffryn Cledlyn.

- Diolch yn fawr iawn am y sgwrs diogelwch tân gyda fy nosbarth Bl2/3 heddiw. Roedd yn ddifyr iawn i'r plant a diolch am siarad yn unigol â'r ddau ddisgybl y mae tân yn y cartref naill ai wedi effeithio arnynt neu a oedd wedi clywed am hyn yn digwydd cyn iddynt gael eu geni. Rwy'n credu bod hyn wir wedi tawelu meddyliau'r ddau ohonynt. Diolch eto, (Bl 2/3), Ysgol Gynradd Rhos.

- Anrhydeddwyd un o Swyddogion Addysg Cymunedol y Gwasanaeth, sydd wedi'i leoli yn Rhanbarth y Gorllewin, yn y noson Gwobrau Cymunedol a gynhaliwyd ym Mhafiliwn De Valence yn Ninbych-y-pysgod i ddathlu 'Diwrnod Rhyngwladol Caredigrwydd'.

**Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.**
**Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.**
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

## Yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol a Datblygu Busnes

- Lansiwyd gwefan allanol newydd ym mis Gorffennaf 2024 ac fe'i cyflwynwyd hefyd ar gyfer y Gwobrau Rhagoriaeth ar y We.






- Cynhaliodd y Gwasanaeth ei Seremoni Wobrwyo flynyddol Mwy na Dim ond Tanau yng Ngwesty'r Village yn Abertawe ar 26 Medi 2024. Cyflwynwyd y digwyddiad gan y ddarlledwraig ar BBC ac S4C, Eleri Sion. Mae'r seremoni yn rhoi diolch ac yn cydnabod ymdrechion, gwaith caled ac ymroddiad rhyfeddol staff y Gwasanaeth a gwirfoddolwyr o bob rhan o ardal y Gwasanaeth.

## Yr Adran Cynllunio Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC)

- Daliwyd ati i gynnal cyfarfodydd Cynllunio a Pherfformiad ac Ystadegau Cymru Gyfan gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, gan nodi’r arfer gorau a’r gwersi a ddysgwyd ac archwilio cyfleoedd i weithio ar y cyd, lle bo hynny'n bosibl.

- Cafwyd ymgysylltu llwyddiannus mewn sawl digwyddiad yng nghyfnod yr haf, gan gynnwys Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2024 a diwrnod agored Gorsaf Dân Dinbych-y-pysgod, a roddodd gyfle i werthuso ac ymgynghori ar ddarpariaeth y Gwasanaeth gyda'r cymunedau lleol.

- Ymgysylltodd y tîm CRhRC â dau ymgynghorydd ymgynghori i gynorthwyo yn y modd y cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar y CRhRC. Yn dilyn y cyngor hwn, cynhaliwyd cyfres o sesiynau galw heibio ymgysylltu â'r gymuned rhwng Ionawr a Mawrth 2025, gan sicrhau ymgysylltiad mwyaf llwyddiannus y Gwasanaeth hyd yma, gyda chyfanswm o 720 o ymatebion i'r arolwg.

## Yr Adran Fflyd, Peirianneg a Logisteg

- Ar ôl cael cyllid grant, prynwyd 8 fan drydan ychwanegol.
- Cynhaliwyd treial Olew Llysiau Hydrogenedig (HVO).
- Gan weithio gydag adran Cyfarpar Gweithredol a Sicrwydd y Gwasanaeth, archwiliwyd cyfleoedd ar gyfer golchi Offer Gwarchod Personol (PPE) aml-swyddogaeth.
- Cynhaliwyd ymweliad safle â Gwasanaeth Tân ac Achub Dyfnaint a Gwlad yr Haf i weld eu Cerbyd Cynorthwyo Digwyddiadau ar gyfer Lles, y swyddogaeth golchi a diheintio Offer Anadlu a'u peiriannau canolig.
- Archwiliwyd opsiynau olrhain cerbydau ar gyfer y fflyd gyfan gyda'r bwriad o gael llyfrau log electronig yn hytrach na systemau papur.

## Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

- Cwblhawyd y prosiect uwchraddio SAN J Airwave ar gyfer radios a dyfeisiau llaw a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys.
- Cynhaliwyd adolygiad o argymhellion mur gwarchod, gan gynyddu gradd diogelwch y Gwasanaeth o 'B' i 'A' gan fynd o -850 i dros 1,200, sy'n golygu bod y system yn cael ei hystyried yn ddiogel iawn ac yn bodloni'r holl ofynion.
- Cyrhaeddodd y Microsoft Secure Score gyfartaledd o 74.5% yn erbyn cyfartaledd o 45.25% ar gyfer sefydliadau o faint tebyg. Roedd y cynnydd yn dilyn cryn dipyn o waith gan reolwyr yr adran TGCh a'r Timau Diogelwch, a werthusodd ac asesu risg bron i 1,000 o wahanol osodiadau ac argymhellion yn unigol, a'u cyflwyno mewn modd rheoledig ar draws y Gwasanaeth.

## Risg Gorfforaethol

- Dechreuodd y Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles adolygiad o'r defnydd o gymhorthion clyw o fewn y Gwasanaeth.
- Cynhaliwyd ailasesiad y Ddraig Werdd yn gynnar ym mis Chwefror, gyda'r Gwasanaeth yn cadw ei safon Lefel 5. Mae'r dyfarniad yn rhoi sicrwydd da bod gan y Gwasanaeth system reoli amgylcheddol briodol ar waith.
- Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi Iechyd a Diogelwch a Dynladdiad Corfforaethol, wedi’u cyflwyno gan un o yswirwyr y Gwasanaeth, ym mis Mawrth 2025 gydag aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth.

## Ystadau

- Yn dilyn proses ymgeisio, llwyddodd yr adran ystadau i gael cyllid grant o £128,000 i wella'r seilwaith Cerbydau Trydan.
- Cwblhawyd gwaith draenio cynaliadwy ar safle’r Gwasanaeth yn Dafen.
- Archwiliwyd cyfleoedd gyda Gwasanaethau Tân ac Achub eraill ar gyfer rheoli halogyddion.
- Cytunwyd ar drefniadau rhannu safle gyda Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer cyd-leoli Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Ngorsafoedd Tân Llanfyllin, Crucywel, y Gelli Gandryll, Arberth, Llandeilo a Llanymddyfri.
- Cafwyd cyllid Amgylcheddol gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot i wella amgylchedd gorsafoedd tân Dyffryn Aman a Phontardawe.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don’t print if it’s not necessary.

**Cyfarpar Gweithredol a Sicrwydd**

- Sefydlwyd gweithgor i ddelio â'r peryglon a achosir gan danau Cerbydau Trydan (EV) a batris ïon lithiwm. Bydd y grŵp yn nodi gweithdrefnau diogel i ddelio â digwyddiadau ac yn addysgu a hysbysu cymunedau am beryglon tanau EV / batris ïon lithiwm.
- Gwnaed cais am gyllid grant gan Lywodraeth Cymru i gaffael offer, gan gynnwys jetiau rîl pibell 22mm, mesuryddion llif, chwistrellau llyfn ac injanau cychod newydd.
- Cafodd chwythwyr tanau gwyllt trydan eu treialu gydag adborth cadarnhaol gan orsafoedd.
- Defnyddiwyd ymweliadau Sicrwydd Strategol i nodi arfer da a chyfleoedd dysgu, a rannwyd ledled y Gwasanaeth trwy'r System Dysgu Gweithredol (OLS). Cafodd Sicrwydd ei gynnwys hefyd fel eitem agenda sefydlog yng nghyfarfodydd y Grŵp Dysgu Gweithredol (OLG), lle trafodwyd tueddiadau a chanlyniadau ymweliadau Sicrwydd Strategol.

**Gweithdrefnau Gweithredol a Dysgu (OPAL)**

- Roedd aelodau OPAL yn rhan o ddirprwyaeth o aelodau gwasanaethau tân y DU a aeth i'r Iseldiroedd i weld y dulliau diffodd tanau a ddefnyddir gan Wasanaethau Tân ac Achub yr Iseldiroedd. Bydd yr wybodaeth a gafwyd yn cyfrannu at y gwaith sy'n cael ei wneud gan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC) mewn perthynas â'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol (NOG) ac yn cynorthwyo gyda gofynion adroddiad y Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub.

**Caffael a Chontractio**

- Cwblhaodd dau aelod o'r tîm Caffael a Chontractio weithdy manwl tridiau o hyd Llywodraeth y DU ar y Ddeddf Gaffael ddiwygiedig gan ennill ardystiad fel Ymarferwyr Uwch.
- Enillodd y tîm Caffael y Wobr Canmoliaeth Uchel am y Cyflawniad Caffael Gorau (Fframwaith Adeiladu a Gwaith Saer) yng Ngwobrau Rhagoriaeth Caffael Go Wales yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

**Adnoddau Dynol (AD)**

- Gwnaed gwelliannau i system AD a Chyflogres y Gwasanaeth, sef People XD, i gynnwys y modiwlau canlynol: treuliau, cofnodi oriau hyblyg, cynefino a llwytho P60s i'r porth. Mae'r gwelliannau hyn yn rhoi cefnogaeth bellach i nod y Gwasanaeth o ddigido prosesau.
- Cwblhawyd yr Archwiliad Cyflogres ar gyfer 2023/2024 gyda Chyngor Sir Gâr a gweithredwyd y gwelliannau a amlygwyd.

- Lansiodd darparwr iechyd galwedigaethol y Gwasanaeth, InSync, borth ar-lein newydd ar gyfer atgyfeiriadau ac apwyntiadau, gan leihau'r gwaith gweinyddol sydd ei angen gan yr adran AD a symleiddio'r broses apwyntiadau gyda staff gweithredol.
- Cafwyd dyfynbrisiau ar gyfer Gofal Iechyd Preifat, a chynhaliwyd ymchwil gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub ledled y DU yn casglu gwybodaeth am sut maen nhw'n rheoli trefniadau gofal iechyd preifat, monitro absenoldeb salwch, defnyddio cwnselwyr mewnol neu ddewisiadau amgen.

## Rheoli Tân ar y Cyd (JFC)

- Achubwyd person yn Llanelli ar 08 Medi 2024, a chafwyd canmoliaeth gan y preswylydd i weithredwyr y Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd am y canllawiau goroesi a ddarparwyd. Hefyd, ysgrifennodd criwiau o Orsaf Dân Rhydaman at y Ganolfan Rheoli Tân ar y Cyd i ganmol yr wybodaeth a basiwyd dros y radio, a gynorthwyodd i achub preswylydd ac anifeiliaid anwes yn gyflym.
- Cafwyd adborth cadarnhaol yn dilyn archwiliad trin galwadau.
- Defnyddiwyd gwirfoddolwyr i gynorthwyo gydag ymarferion i greu galwadau ar gyfer ymarferion lle mae angen nifer uchel o alwadau.
- Darparwyd cymorth ar gyfer sesiynau ffilmio gyda'r Swyddfa Gartref i gynhyrchu pecyn hyfforddi ar gyfer y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN).

## Ymateb Canolog

- Cafodd tri pheiriant tân eu danfon i Wlad Pwyl i'w defnyddio gan Wasanaeth Tân ac Achub Wcráin fel rhan o Gonfoi Fire Aid. Cymerodd naw aelod o staff o'r Gwasanaeth ran yn y broses o'u danfon.
- Gweithredwyd y polisi Larymau Tân Ffug (FFA) diwygiedig, a llwyddwyd i bontio'n gymharol llyfn. Dim ond ychydig o broblemau y bu'n rhaid i griwiau gweithredol a Rheoli Tân ar y Cyd roi gwybod amdanynt.
- Cynhaliwyd treial sicrwydd gweithredol am gyfnod o 6 mis, gan ddefnyddio'r grŵp gwydnwch o swyddogion tactegol; nod y treial oedd gwella perfformiad gweithredol a chofnodi'r gwersi gwerthfawr a ddysgir yn sgil digwyddiadau.

## Rhanbarth y Gogledd

- Dyfarnwyd gwobrau cydnabyddiaeth i nifer o Ddiffoddwyr Tân, Rheolwyr Criw a Rheolwyr Gwylfa ledled Rhanbarth y Gogledd, am eu blynyddoedd anhygoel o wasanaeth, gan dynnu sylw at yr ymroddiad a ddangosir gan ein staff gweithredol.

Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.
Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

- Llwyddodd Rhanbarth y Gogledd i godi dros £12,000 o amrywiol ddigwyddiadau codi arian yn ystod y 12 mis diwethaf ar gyfer Elusen y Diffoddwyr Tân.



- Ers mis Ebrill 2024, mae diffoddwyr tân o bob rhan o'r rhanbarth wedi mynd i 211 o ddigwyddiadau ymateb meddygol, ac mewn 28 ohonynt llwyddwyd i adfer cylchrediad digymell, sy'n gyfradd lwyddiant o 13%.

**<u>Rhanbarth y De</u>**

- Aeth Gorsaf Dân Reynoldston allan i argyfwng meddygol yn y pentref, lle roedd unigolyn wedi cael trawiad ar y galon. Yn dilyn ymyrraeth lwyddiannus gan griwiau, adferwyd ymwybyddiaeth yr unigolyn ac ar ôl ei drosglwyddo i'r ysbyty gwnaeth adferiad llawn.
- Cynhaliwyd diwrnod agored llwyddiannus yng Ngorsaf Dân Pontarddulais, gyda nifer dda o bobl yn bresennol. Cefnogwyd y digwyddiad gan aelodau o'r tîm Diogelwch Cymunedol ac aelodau o griwiau lleol.





- Hefyd, cynhaliodd Gorsaf Dân Port Talbot ddiwrnod agored llwyddiannus yn yr Orsaf ddydd Sadwrn 13 Gorffennaf, gyda phresenoldeb gan y Tîm Cymorth Cyflym, Ambiwlans Sant Ioan, y Groes Goch, y Sefydliad Bad Achub Cenedlaethol Brenhinol a Gwylwyr y Glannau, a nifer dda o bobl yn bresennol.

**<u>Rhanbarth y Gorllewin</u>**

- Cynhaliwyd Ymarfer Aml-Asiantaeth 'Merlin' ar 23 Ebrill 2024. Gorsaf Dân Caerfyrddin oedd y pwynt rheoli, a chymerodd sawl asiantaeth ran yn yr efelychiad, gan anfon peiriannau allan i sawl digwyddiad drwy gydol y dydd ac i'r nos. Canmolwyd yr ymarfer gan bawb a oedd yn rhan o'r ymarfer, gan ymgorffori cynllunio a chydlynu gweithredol, cydlynu tactegol, efelychiad grŵp a sawl ymarfer achub cydweithredol.
- Gosodwyd pwyntiau casglu dŵr wedi'i drin ag uwchfioled (UV) yn safle trin dŵr gwastraff Dinbych-y-pysgod.




- Cyrhaeddodd diffoddwr tân o Orsaf Dân Cydweli gopa Ama Dablam, ym mis Tachwedd 2024, a oedd yn rhan o'i baratoad ar gyfer dringo i gopa Everest yng Ngwanwyn 2025. Llwyddodd y diffoddwr tân i ddringo'r 6,812 metr i brif gopa Ama Dablam yn Nepal. Bydd yr arian a godir yn cael ei rannu rhwng Elusen y Diffoddwyr Tân, MIND a Sefydliad Nimsdair, sy'n gweithio i glirio'r sbwriel a adewir gan ddringwyr yn yr Himalaya.





**Darparu Hyfforddiant**

- Cynhaliwyd seremoni raddio a Pharêd Cwblhau Hyfforddiant ar 25 Gorffennaf 2024 ar gyfer carfan o Ddiffoddwyr Tân Amser Cyflawn. Cynhaliwyd y digwyddiad yng Nghanolfan Hyfforddi Earlswood y Gwasanaeth, ac roedd yn gyfle i ddathlu a myfyrio ar gyflawniadau anhygoel y 12 unigolyn - a elwir gyda'i gilydd yn Sgwad 02/24 - a oedd wedi cwblhau eu cwrs hyfforddi Amser Cyflawn 14 wythnos.



**Straeon 'newyddion da' eraill.**

**Gorsaf Dân Aberystwyth yn cefnogi elusen 'Erin's Angels'**

Ar 19 Ionawr 2020, cafodd criwiau Aberystwyth, Tregaron a Llanbedr Pont Steffan eu galw i ddigwyddiad yn Ffair Rhos, Ceredigion.

Ymatebodd criwiau i dân mewn carafán deithiol; cafodd y garafán ynghyd â cherbyd modur preifat eu dinistrio'n llwyr gan dân. Yn anffodus, bu farw Zac Harvey, a oedd yn dair oed, yn y tân a chafodd ei frawd, Harley Harvey, a oedd yn bedair oed ar y pryd, losgiadau difrifol. Nid oedd disgwyl i Harley oroesi ei anafiadau ond mae'n gwneud cynnydd da o ran ei adferiad.

Dair blynedd ar ôl y digwyddiad a marwolaeth Zac, cafodd mam Zac a Harvey, Erin, ddiagnosis terfynol o ganser eilaidd yn yr afu ac, yn drist iawn, bu farw ym mis Ionawr 2024. Yn dilyn marwolaeth Erin, sefydlodd ei ffrindiau a'r rhai oedd yn gofalu amdani - Abi, Rhian, Lowri a Rhian - elusen 'Erin's Angels'. Ei nod yw sefydlu rhwydwaith o gymdeithion diwedd bywyd gwirfoddol ar gyfer y rhai sydd wedi cael diagnosis terfynol ond nad oes ganddynt gymorth gartref. Mae'r elusen yn gweithio i

ddarparu gwirfoddolwyr i fynd gyda chleifion i apwyntiadau, i ddarparu cymorth wyneb yn wyneb neu dros y ffôn ac i ddarparu cwmnïaeth i gleifion, a'u teuluoedd, yng nghyfnod olaf eu bywydau.

Ddydd Mercher, 03 Ebrill, croesawodd y criw yng Ngorsaf Dân Aberystwyth ymddiriedolwyr sefydlol Erin's Angels i gyflwyno rhodd o £400 iddynt, a godwyd yn ystod un o ddyddiau agored yr Orsaf.




**Dathlu 150 mlynedd o’r Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Drenewydd**

Ddydd Sadwrn, 6 Ebrill, cafodd digwyddiad dathlu arbennig ei gynnal yng Ngorsaf Dân y Drenewydd a ddaeth ag aelodau presennol a chyn-aelodau staff y Gwasanaeth ynghyd, yn ogystal â gwesteion.

Ym mis Ebrill 1874, cafodd Brigâd Dân Wirfoddol y Drenewydd ei chreu, ac mae sawl newid wedi bod i’r strwythur ers hynny.  Cafodd Cyd-wasanaeth Tân Sir Ddinbych a Sir Drefaldwyn ei ffurfio yn 1948 ar ôl i’r Gwasanaeth Tân Cenedlaethol drosglwyddo rheolaeth tân i wasanaethau sirol a bwrdeistrefi sirol rhanbarthol.  Yn 1974, aeth pob un o'r Cynghorau Sir a oedd newydd gael eu sefydlu ati i gynnal eu Gwasanaethau Tân ac Achub eu hunain ac yn 1996 cafodd Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg eu huno gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 i greu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae adegau a digwyddiadau o bwys yn hanes Gwasanaeth Tân ac Achub y Drenewydd yn cynnwys tân trychinebus ym Melin y Cambrian yn 1912, dyfodiad ei injan dân stêm gyntaf yn 1913, y seiren oedd yn rhybuddio diffoddwyr tân o ddigwyddiad yn cael ei disodli gan declynnau rhybuddio poced yn 1971 a thân mawr yn Nhanerdy’r Drenewydd yn 1981.

Nid oes amheuaeth bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Drenewydd wedi gweld newid aruthrol drwy gydol ei hanes, o geirt yn cael eu tynnu gan geffylau i’r peiriannau tân a’r offer achub bywyd diweddaraf oll.  Drwy gydol ei hanes, mae'r holl ddiffoddwyr tân yng Ngorsaf Dân y Drenewydd wedi dangos ymroddiad, dewrder a gwasanaeth i'r gymuned leol, ac yn ddi-os maent wedi achub bywydau di-ri.

Wrth ddathlu 150 mlynedd, rydym nid yn unig yn cofio a dathlu’r gorffennol, ond hefyd yn cadarnhau unwaith eto ymrwymiad y Gwasanaeth Tân ac Achub i gymuned y Drenewydd i’r dyfodol.



**Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn Rhan o Gonfoi Mwyaf Erioed Gwasanaethau Tân ac Achub y DU**

Ddydd Mawrth, Ebrill 23, dechreuodd confoi o offer a cherbydau achub bywyd y gwasanaethau tân ac achub, wedi'i gydlynu gan Fire Aid, ar ei daith i Wcráin i ddanfon yr offer hanfodol hwn i Ddiffoddwyr Tân yn Wcráin.

Roedd maint y confoi yn ddigynsail, gan ei fod yn cynnwys 33 o gerbydau tân ac achub, dau gerbyd peirianwyr a dros 2,800 o ddarnau o offer a roddwyd gan Wasanaethau Tân ac Achub y DU gyda chefnogaeth y Swyddfa Gartref. Gan weithio gyda Fire Aid, mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru a Lloegr wedi cyfrannu'r holl beiriannau, cit ac offer, sy'n cynnwys ysgolion, setiau offer anadlu, cychod, offer gwarchod personol tân a dŵr a chit gweithio'n ddiogel ar uchder. Cymerodd 100 o wirfoddolwyr, o'r Gwasanaethau Tân ac Achub a Fire Aid, ran yn y confoi.

Gwirfoddolodd naw aelod o bersonél Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) eu hamser i ddanfon tair injan dân ar ran y Gwasanaeth. Trefnwyd y confoi trwy bartneriaeth o 15 o Wasanaethau Tân ac Achub y DU, sy'n cynnwys pob un o'r tri GTA yng Nghymru, yn ogystal â Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, Cydnerthedd Cenedlaethol, y Swyddfa Gartref, Fire Aid, a Chymdeithas y Diwydiant Tân.







**Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn Codi £166,297 i Elusen y Diffoddwyr Tân!**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi codi £166,297 i Elusen y Diffoddwyr Tân – cyfanswm syfrdanol!

Mae'r arian hwn wedi'i godi yn sgil ymdrechion anhygoel staff gweithredol a staff cefnogol y Gwasanaeth, sydd wedi cymryd rhan mewn amrywiol ddigwyddiadau a heriau codi arian, a digwyddiadau golchi ceir a Dyddiau Agored mewn Gorsafoedd Tân.

Mae Elusen y Diffoddwyr Tân yn cynnig cymorth gydol oes i les meddyliol, corfforol a chymdeithasol diffoddwyr tân sy'n gwasanaethu a'r rhai sydd wedi ymddeol, ac i'w teuluoedd a phersonél eraill y Gwasanaethau Tân ac Achub.  Cafodd yr Elusen ei sefydlu yn 1943 ac mae'n cael ei hariannu trwy roddion a digwyddiadau codi arian gan y Gwasanaethau Tân ac Achub. Mae'n adnodd hanfodol i'r rhai sy'n cysegru eu bywydau i amddiffyn eraill.



**Y Diffoddwr Tân Mel Herbert yn cwblhau Hanner Marathon mewn Cit Diffodd Tân Llawn**

Ddydd Sul, 16 Mawrth, cwblhaodd Mel Herbert, Diffoddwr Tân Ar Alwad yng Ngorsaf Dân Pont-iets, Hanner Marathon Mawr Cymru – mewn cit diffodd tân llawn.

Ar ôl sawl wythnos o baratoi, cwblhaodd Mel y ras 13 milltir o hyd yn gwisgo tiwnig diffodd tân, trowsus a set offer anadlu – a'r set honno'n pwyso tua 13 pwys ar ei phen ei hun – mewn ychydig llai na thair awr.

Penderfynodd Mel ymgymryd â'r her o gwblhau'r ras, a ddechreuodd ac a ddaeth i ben ym Mharc Gwledig Pen-bre ac a oedd yn cynnwys Porth Tywyn, i godi arian pwysig ac ymwybyddiaeth o Elusen y Diffoddwyr Tân.  Mae'r Elusen yn cynnig cymorth gydol oes i les meddyliol, corfforol a chymdeithasol diffoddwyr tân sy'n gwasanaethu a'r rhai sydd wedi ymddeol, ac i'w teuluoedd a phersonél eraill y Gwasanaethau Tân ac Achub.



**Ystyriwch yr amgylchedd cyn argraffu.**
**Peidiwch ag argraffu os nad oes rhaid.**
Please consider the environment before printing.
Don't print if it's not necessary.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

